AROLYGIAETH PRAWF EI MAWRHYDI

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2008-09

Crynodeb

Yn ystod 2008-09 cyflawnodd Arolygiaeth Prawf EM y canlynol:

- cwblhau'r rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr (ARhT - *OMI*) yn unol â'r amserlen, lle arolygwyd y broses rheoli troseddwyr gennym yn y 42 ardal cyfiawnder troseddol dros gyfnod o dair blynedd o ganol 2006. Yn ystod 2008-09 cwblhawyd 15 arolygiad gennym dan y broses ARhT a llunio pum adroddiad gydag Arolygiaeth Carchardai EM ar reoli troseddwyr mewn carchardai. Buom yn gweithio hefyd ar gynlluniau ar gyfer y rhaglen olynol (ARhT 2 – *OMI 2*) a fydd yn cychwyn yn ystod Medi 2009

- hefyd cwblhau arolygiad ar y cyd o'r Timau Troseddwyr Ifanc (TTIau) yn unol â'r amserlen gan arwain y gwaith o arolygu'r 157 TTI dros gyfnod o bum mlynedd yn cychwyn yn ystod hydref 2003. Gwnaethom gynlluniau hefyd ar gyfer y rhaglen arolygu olynol – Arolygu Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc (AGTI - *IYO*) – a ddechreuodd yn Ebrill 2009

- yng nghyswllt arolygiadau thematig ar y cyd, cyhoeddi adroddiad ar y cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM ar gyrffyws sy'n cael eu monitro'n electronig. Rydym hefyd wedi arwain pedwar arolygiad thematig ar y cyd arall dan y Rhaglen Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd – ar Droseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth, Dedfrydau Amhenodol er Diogelu'r Cyhoedd, Troseddwyr sydd ag Anhwylderau Meddwl a Throseddwyr Rhyw, y cyfan i'w cyhoeddi yn ystod 2009. Fe wnaethom gyfrannu at nifer o adroddiadau thematig ar y cyd eraill, gan gynnwys y trydydd adolygiad o ddiogelu plant a phobl ifanc dan arweiniad Ofsted

- cyhoeddi ym Mehefin 2008 adroddiad yr ymchwiliad i reoli *Risg o Niwed* yn Llundain yn dilyn achos Chester-Nash o 2005.

Mae mwyafrif llethol – dros 90% - o waith Arolygiaeth Prawf EM yn 2008-09 wedi dod o dan y Rhaglen Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd y mae pob arolygiaeth yn gyfrifol amdani.

Craidd ein gwaith arolygu o hyd yw asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu mewn sampl cynrychioliadol o achosion penodol o unigolion sy'n troseddu. Rhown ein barn ar ba mor aml y cafodd y gwaith ei wneud yn ddigon da gyda phob unigolyn mewn sampl cynrychioliadol o achosion. Rydym hefyd o'r farn y dylai arolygu fod yn gymesur ac yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar waith lle mae arolygu uniongyrchol yn gwneud asesiadau na ellir eu gwneud yn rhwydd drwy unrhyw ddulliau eraill. Rydym wedi dilyn y dull hwn yn y cynlluniau ar gyfer ein rhaglenni arolygu newydd ar gyfer gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu.

Rydym yn parhau i roi blaenoriaeth uchel yn ein harolygiadau i'r materion cysylltiedig o *Amddiffyn y Cyhoedd* (lleihau i'r eithaf y *Risg o Niwed i eraill* y mae pob troseddwr yn ei beri) a *Diogelu* (lleihau i'r eithaf y risgiau i unigolion sydd mewn risg o ddioddef niwed gan eraill neu hwy eu hunain).

Yn ei Ragair, cyfeiria Andrew Bridges, y Prif Arolygydd Prawf, at rôl arolygu annibynnol yn darparu sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd. Mae trefn arolygu'n canfod a yw gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu'n effeithiol neu beidio. Felly, mae bodolaeth y system arolygu yn darparu *Sicrwydd* i Weinidogion a'r cyhoedd – er na fydd y canfyddiadau o bosib ar unrhyw un achlysur o anghenraid yn darparu tawelwch meddwl a sicrwydd. *Sicrwydd* yw'r budd a gaiff y cyhoedd o wybod bod trefn benodol o arolygiadau annibynnol ar gael. Mae gwaith arolygu hefyd yn arwain at welliant wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i adroddiadau arolygu. Mae'r ddau fudd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt gwaith *Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu*, gwaith nad yw'n hawdd ei fesur drwy ddulliau eraill heblaw drwy arolygu.

Rhagair

Beth y mae arolygu yn ei 'sicrhau'?

Unwaith eto, rwy'n falch iawn o gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol, sy'n crynhoi ein gwaith am y flwyddyn. Mae Arolygiaeth Prawf EM yn arolygu'n annibynnol y gwaith a wneir gydag oedolion a phobl ifanc sydd wedi troseddu (neu a allai droseddu), pwy bynnag sy'n gwneud y cyfryw waith er mwyn ceisio sicrhau y bydd y troseddwyr yn llai tebygol o droseddu eto. Rydym yn mesur pa mor aml y mae'r gwaith hwnnw'n cael ei wneud yn ddigon da.

Rydym hefyd yn cynghori Gweinidogion a'r cyhoedd am yr hyn sy'n rhesymol i'w ddisgwyl o'r gwaith hwn. Credwn ei bod yn bwysig iawn bod ein disgwyliadau yng nghyswllt ein gwasanaethau cyhoeddus yn uchel, ond i beidio â gosod disgwyliadau amhosibl. Am hynny, nid beirniadu ymarferwyr am "fethu â chyflawni'r amhosibl" yw'r hyn a wnawn. Ond felly, pa sicrwydd arall all ein harolygiadau ei gynnig i Weinidogion a'r cyhoedd?

Mae trefn arolygu annibynnol yn canfod a yw gwasanaeth cyhoeddus yn cael ei ddarparu'n effeithiol neu beidio. Felly, mae bodolaeth y system arolygu yn darparu *Sicrwydd* i Weinidogion a'r cyhoedd – er na fydd y canfyddiadau o bosib ar unrhyw un achlysur o anghenraid yn darparu tawelwch meddwl a sicrwydd o gwbl! *Sicrwydd* yw'r budd a gaiff y cyhoedd o wybod bod trefn benodol o arolygiadau annibynnol ar gael. Hefyd, yn unol â pholisi'r Llywodraeth ar arolygu, pan fydd gwasanaethau cyhoeddus yn ymateb i'n hadroddiadau, mae ein gwaith arolygu hefyd yn darparu'r budd ychwanegol o *welliant*.

Mae'r ddau fudd hyn yn arbennig o bwysig yng nghyswllt gwaith *Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu*, sydd wedi dod yn rhan annatod o'n harfer arolygu craidd, gan nad ydynt yn rhywbeth sy'n hawdd ei fesur drwy ddulliau eraill heblaw drwy arolygu. O'r herwydd, maent yn enghreifftiau pwysig o lle a sut y mae arolygu'n *ychwanegu gwerth.* Gellir ystyried bod y ddau faes mewn sawl agwedd fwy neu lai yn golygu'r un math o waith, ond yr ymdrinnir â hwy mewn ffyrdd gwahanol: gyda *Diogelu* mae'r ffocws ar *ddioddefwyr* cyfredol a phosibl (unigolion sydd mewn risg o ddioddef niwed oddi wrth eraill neu hwy eu hunain); gydag *Amddiffyn y Cyhoedd* mae'r ffocws ar *droseddwyr* cyfredol a phosibl (unigolion sydd yn peri *Risg o Niwed i eraill).* Felly ar gyfer yr Arolygiaeth hon, mae dull sylfaenol sydd fwy neu lai'n berthnasol i'r ddau.

- Mae'n rhaid i ni barhau i bwysleisio nad yw hi byth yn bosibl cael gwared â'r 'risg i'r cyhoedd' yn gyfan gwbl, ond mae gan y cyhoedd hawl i ddisgwyl bod yr awdurdodau'n gwneud eu gwaith yn iawn.

- Mae 'gwneud eich gwaith yn iawn' yn golygu 'gwneud popeth y gallai rhywun yn rhesymol ei wneud' - o ran Amddiffyn y Cyhoedd mae hyn yn golygu "cymryd pob cam rhesymol i leihau i'r eithaf *y Risg* o *Niwed i eraill*" a berir gan bob troseddwr.

- Pan fydd yr Arolygiaeth hon yn adolygu achos unigol (e.e. Hanson a White, neu Anthony Rice), rydym yn darparu adroddiad ar a wnaeth yr awdurdodau

‘bopeth y gallent yn rhesymol ei wneud’ yn yr achos penodol hwnnw - barn ansoddol yw hon, ac yn farn ar *resymoldeb*, nid ar berffeithrwydd.

- Pan fyddwn yn arolygu sampl o achosion (40 – 250+) rydym yn darparu adroddiad ar *ba mor aml* y gwnaeth yr awdurdodau perthnasol 'bopeth y gallent yn rhesymol ei wneud' yn y sampl hwnnw o achosion. I’w roi mewn ffordd arall, petai Trosedd Difrifol Pellach neu drychineb arall yn digwydd mewn ardal arbennig – a gall ddigwydd mewn unrhyw le – mae ein canfyddiadau o'n harolygiad yn dangos y tebygolrwydd y byddai’r awdurdodau yno’n gallu dangos eu bod wedi ‘gwneud popeth y gallent yn rhesymol fod ei wneud’.

Hynny yw, nid ydym yn beirniadu gwasanaeth am 'fethu â chyflawni'r amhosibl, ond, yn hytrach, rydym yn barnu pa mor aml y mae gwasanaeth wedi gwneud *yr hyn a oedd yn bosibl ei gyflawni.*

Rydym yn Arolygiaeth annibynnol, ond rydym yn gweithredu fel rhan o ‘dîm’ ehangach o weision cyhoeddus sy’n ceisio gwella gwasanaethau cyhoeddus yn y System Cyfiawnder Troseddol a thu hwnt. Mae ein trefn arolygu yn darparu mesur o *Sicrwydd* i’r cyhoedd ac mae hefyd yn helpu i hyrwyddo’r ‘Daith Hir’ o *Welliant cynyddol parhaus* dros amser.

Andrew Bridges
Gorffennaf 2009

Cais difrif i reolwyr Prawf a’r Gwasanaeth Troseddwyr Ifanc: Peidiwch â gorfodi ‘cyfweliadau arolygu ffug' ar eich staff!

Diolch byth, dim ond ychydig sy’n gwneud y camgymeriad camarweiniol o baratoi ar gyfer arolygiad yn y ffordd hon - peidiwch â gwneud hynny. Nid ‘perfformiad unigolion mewn cyfweliad’ yr ydym yn ei asesu, ond ‘*ansawdd y gwaith a wnaethpwyd’* gyda phob achos.

Y ffordd orau o baratoi? Sicrhau bod gwaith o ansawdd da wedi’i wneud yn y lle cyntaf, a’r gwaith hwnnw wedi'i gofnodi'n ddigonol. Hefyd, peidiwch ag ymestyn y gwaith o ‘dacluso’ ffeiliau achos cyn yr arolygiad i gamliwio *beth sydd wedi’i wneud* neu *pryd y cafodd ei wneud.* Ychydig iawn o waith ychwanegol y mae angen ei wneud ar gyfer ein harolygiadau er mwyn paratoi ar gyfer yr ymweliad arolygu ei hun. Felly, os ydych chi'n defnyddio ymgynghorwyr, dylech eu defnyddio ar gyfer rhywbeth mwy defnyddiol na ‘pharatoi staff ar gyfer eu cyfweliadau arolygu’!

“[yr hyn a fyddai’n gwella’r broses arolygu fyddai]... llai o baranoia gan y rheolwyr o flaen llaw yn y ddau fis ac ati yn arwain at yr arolygiad a oedd, yn fy marn i, yn orymateb dybryd gan y rheolwyr." (Ymarferydd)

Pennod 1 – Blwyddyn Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi

Trosolwg

1.1
Yn ystod 2008-09 llwyddasom i wneud yr holl waith arolygu a oedd wedi'i gynllunio gennym yn unol â'r amserlen, a chan gwblhau yr un pryd y ddwy brif raglen arolygu rheolaidd yn y tymor hwy:

- fe wnaethom gwblhau'r rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr (ARhT) lle arolygwyd y broses rheoli troseddwyr gennym yn y 42 ardal cyfiawnder troseddol dros gyfnod o dair blynedd o ganol 2006. Yn ystod 2008-09 fe wnaethom gwblhau 15 arolygiad dan y rhaglen ARhT. Buom yn gweithio hefyd ar gynlluniau ar gyfer y rhaglen olynol (ARhT 2 – *OMI 2*) a fydd yn cychwyn yn ystod Medi 2009. (Mae rhagor o wybodaeth ar ARhT 2 ym mhennod 2.)
- hefyd fe wnaethom gwblhau'r arolygiad ar y cyd o'r Timau Troseddwyr Ifanc (TTIau), gydag wyth Arolygiaeth neu gorff rheoleiddio eraill, gan arwain yr arolygiadau o 157 TTI dros gyfnod o bum mlynedd yn cychwyn yn ystod hydref 2003. (Mae mwy o wybodaeth ar gael ym Mhennod 3.) Yn ystod 2008-09, fe wnaethom gwblhau'r gwaith maes ar yr 20 arolygiad a'r 3 ailarolygiad sy'n weddill yng nghyswllt y TTIau. Gwnaethom gynlluniau hefyd ar gyfer y rhaglen arolygu olynol – Arolygu Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc (AGTI – *IYO*) – a ddechreuodd yn Ebrill 2009. Ar ddiwedd y rhaglen arolygu TTIau, cyhoeddasom adroddiad *Diwedd Rhaglen,* a oedd yn dwyn ynghyd brif ganfyddiadau'r arolwg. Cyhoeddasom hefyd adroddiad ar y cyd gyda'r Comisiwn Gofal Iechyd ar faterion yn ymwneud ag iechyd – ar sail canfyddiadau cyfun y rhaglen Arolygu TTIau – ym mis Chwefror 2009 a byddwn yn cyhoeddi adroddiadau tebyg ar y canfyddiadau cyfun ar destunau eraill.

1.2
Gwnaethom gyfraniad sylweddol at y gwaith arolygu thematig ar y cyd gydag Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill ac Arolygiaethau eraill. Cyhoeddasom (ym mis Hydref 2008) adroddiad thematig ar y cyd dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM ar gyrffyws sy'n cael eu monitro'n electronig. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom arwain pedwar arolygiad thematig ar y cyd arall dan y Rhaglen Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd – ar Droseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth, Dedfrydau Amhenodol er Diogelu'r Cyhoedd, Troseddwyr sydd ag Anhwylderau Meddwl a Throseddwyr Rhyw. Fe wnaethom gyfrannu hefyd at nifer o adroddiadau thematig ar y cyd eraill, gan gynnwys y trydydd adolygiad o ddiogelu plant a phobl ifanc dan arweiniad Ofsted.

1.3
Cyhoeddasom adroddiad yr ymchwiliad i reoli *Risg o Niwed* yn Llundain yn dilyn achos Chester-Nash o 2005. Ac ym mis Mawrth 2009, dechreusom weithio ar gyfres o arolygiadau o achosion arbennig yn Llundain yn sgil achos Sonnex. Fe wnaethom hefyd barhau i ddarparu cyngor i'r Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (GCRhT) a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar ddatblygu gwaith Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu.

1.4
Mae'r tabl canlynol yn crynhoi nifer yr arolygiadau a gynhaliwyd (h.y. y gwaith maes wedi'i gwblhau) a nifer yr adroddiadau arolygu a gyhoeddwyd yn 2008-09. (Mae'n anochel bod rhywfaint o amser rhwng dyddiad y gwaith maes a dyddiad y cyhoeddi.)

	Arolygiadau[(1)] a gynhaliwyd	**Adroddiadau[(1)] arolygu a gyhoeddwyd**
Arolygiadau gan Arolygiaeth Prawf EM fel Arolygiaeth unigol	5	1
Cydarolygiadau rhwng Arolygiaeth Prawf EM ac Arolygiaethau eraill	72	82
[(1)] yn cynnwys ailarolygiadau lle bônt yn berthnasol		

Dangosir manylion yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn Atodiad D.

1.5
Mae'r penodau canlynol yn rhoi mwy o fanylion am ein gwaith arolygu ar bob un o'r rhaglenni y cyfeirir atynt uchod. Mae'r bennod hon yn disgrifio rhai datblygiadau pwysig yn ein gwaith arolygu'n gyffredinol a'r cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo, gan gynnwys ein gwaith ar y cyd ag Arolygiaethau eraill. Mae hefyd yn cyfeirio at ein rôl yn darparu cyngor ac yn cydgysylltu â sefydliadau perthnasol. Wedyn ceir adroddiad byr am rai o'r datblygiadau yn y ffordd yr ydym yn trefnu ein hunain er mwyn cyflawni ein busnes.

Sylfaen greiddiol arolygu

1.6
Craidd ein gwaith arolygu o hyd yw asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu mewn sampl cynrychioliadol o achosion penodol o unigolion sy'n troseddu. Rhown ein barn ar ba mor aml y cafodd y gwaith ei wneud yn ddigon da gyda phob unigolyn mewn sampl cynrychioliadol o achosion.

1.7
Rydym hefyd o'r farn y dylai arolygu fod yn gymesur ac yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar waith lle mae arolygu uniongyrchol yn gwneud asesiadau na ellir eu gwneud yn rhwydd drwy unrhyw ddulliau eraill.

Arolygu'r System Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd

1.8
Yn dilyn y penderfyniad ym mis Hydref 2006 i ddatblygu Cynllun Arolygu ar y Cyd blynyddol, bu gan Arolygiaeth Prawf EM ran arweiniol yn y gwaith a wnaethpwyd rhwng yr Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol ar y cynlluniau ar gyfer y Rhaglen o Gydarolygiadau yn 2008-09 a luniwyd ym Mehefin 2008, a hefyd ar y rhai ar gyfer y rhaglen arolygu ar y cyd ar gyfer 2009-10 yr oedd ei ffurf derfynol yn cael ei gwblhau adeg paratoi'r adroddiad hwn. Yn gyffredinol, mae dros 90% o'n gwaith arolygu yn 2008-09 wedi dod o dan y Rhaglen

Arolygu ar y Cyd y mae'r holl arolygiaethau'n gyfrifol amdani. Rydym hefyd wedi parhau i gymryd yr awenau gyda'r gwaith ar draws yr Arolygiaethau i rannu gwasanaethau cymorth mewnol a seilwaith lle roedd hynny'n ymarferol.

1.9
Yng nghyswllt y trefniadau arolygu ar y cyd ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol, rydym yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Cynghori o aelodau annibynnol sy'n cynghori Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol ar faterion arolygu ar y cyd. Aelodau'r Bwrdd yw'r Athro Rod Morgan, yr Athro Steven Shute a Dr Silvia Casale.

Asesiad Ardal Cynhwysfawr

1.10
Mae Arolygiaeth Prawf EM yn bartner llawn yn yr Asesiad Ardal Cynhwysfawr (AAC) o ardaloedd lleol dan arweiniad y Comisiwn Archwilio, sydd wedi dechrau yn 2009. Yn ystod 2008-09 buom yn gweithio gyda'r Comisiwn Archwilio ac Arolygiaethau partner eraill a chyda'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer yr AAC. Bwriadwn gyfrannu prif ganfyddiadau ein harolygiadau i bob asesiad cyn gynted ag y byddant ar gael, yn enwedig y rheini o'r arolygiadau newydd o waith gyda throseddwyr ifanc. Bwriadwn hefyd gyflwyno gwybodaeth am berfformiad o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac Asiantaeth GCRhT, ynghyd â'n sylwadau ni.

Cynllunio ar gyfer rhaglenni arolygu newydd

1.11
Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom gynlluniau ar gyfer ein rhaglenni arolygu newydd yng nghyswllt troseddwyr ifanc (a ddechreuodd ym mis Ebrill 2009) a rheoli troseddwyr (sydd i fod i ddechrau ym mis Medi). Gwnaethom yn siŵr ein bod wedi profi'r fethodoleg yn ofalus. Wrth inni gynllunio ar gyfer yr arolygiadau newydd, cyflwynasom ein barn y dylai arolygu fod yn gymesur ac yn canolbwyntio ar agweddau allweddol ar waith lle mae arolygu uniongyrchol yn gwneud asesiadau na ellir eu gwneud yn rhwydd drwy unrhyw ddulliau eraill. I adlewyrchu hyn, bydd yr arolygiadau o droseddu gan bobl ifanc yn canolbwyntio'n bennaf ymhob ardal ar faterion allweddol *Risg o Niwed i eraill* a Diogelu Plant. Mae'r Ysgrifenyddion Gwladol dros Gyfiawnder a Phlant, a phwyllgor perthnasol y Cabinet, wedi ategu'r dull gweithredu hwn.

Cyflwyno canlyniadau ein harolygiadau

1.12
Rydym yn ceisio sicrhau bod canlyniadau ein harolygiadau yn glir ac ar gael yn hwylus. Gwnawn hyn yn rhannol drwy gynnal ein gwefan yn gyson a pharhau i wneud gwelliannau i'w strwythur, gan wneud rhagor o welliannau yn ystod 2008-09. Rydym hefyd yn parhau i adolygu'r angen am gael eglurder yn fformat ein hadroddiadau i sicrhau eu bod yn gryno ac wedi'u cyflwyno mor glir â phosibl. Rydym wedi cadw at yr egwyddor hon yn ein cynlluniau ar gyfer y rhaglenni arolygu newydd - yng nghyswllt troseddu ymysg pobl ifanc a rheoli troseddwyr – a fydd yn cychwyn yn 2009-10.

Trefniadau adrannol

1.13
Er Mai 2007, mae Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi wedi'i lleoli yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac yn dod o dan ei hadain. Yn dilyn rhai newidiadau ac aildrefnu yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae Arolygiaeth Prawf EM yn ystod 2008-09 wedi'i lleoli, at ddibenion trefniadol, yn y Grŵp Cyfiawnder Troseddol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn ei hanfod, mae ein swyddogaeth graidd – sef arolygiadau annibynnol o'r gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu - yn dal heb newid.

1.14
Mae gwaith ar y gweill gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder i lunio dogfen fframwaith a fydd yn nodi'r berthynas rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Arolygiaeth Prawf, ac ar brotocolau yn ymwneud â chyflwyno gwasanaethau penodol a ddarperir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Yn ystod 2008-09 parhaodd y gwaith yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer symud nifer o wasanaethau seilwaith mewnol o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Tra mae rhai o'r trefniadau hyn wedi bod yn ddidrafferth, cafwyd rhai trafferthion gydag eraill, o leiaf ar y dechrau.

Cynghori a Chydgysylltu

1.15
Er mai arolygu annibynnol yw ein prif bwrpas, mae gennym swyddogaeth bwysig hefyd i ddarparu cyngor. Mae rheolwyr Arolygiaeth Prawf EM wedi parhau i gynnig cyngor i Weinidogion ar effeithiolrwydd y gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu, ac i gydgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl yn Asiantaeth GCRhT a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar bob lefel ynglŷn â'r materion hyn. Ymhlith pethau eraill, rydym wedi rhoi cyngor i Asiantaeth GCRhT a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar fater hollbwysig gwaith i leihau'r *Risg o Niwed* i'r cyhoedd (gweler paragraffau 5.4 a 5.5).

1.16
Rydym hefyd wedi cytuno gydag Asiantaeth GCRhT y byddai rhai o'n prif ganlyniadau o'r rhaglen ARhT yn cael eu hymgorffori yn y Fframwaith Perfformiad Prawf Integredig (*IPPF*) – y prif beirianwaith perfformiad ar gyfer ardaloedd prawf a ddefnyddir gan Asiantaeth GCRhT – er mwyn cael darlun cynhwysfawr o berfformiad ar draws yr ardaloedd prawf. Rydym hefyd wedi trafod rhai datblygiadau pellach posibl o'r defnydd hwn o wybodaeth ar gyfer y dyfodol, ac wedi cyfrannu at ystyriaethau am newidiadau i gynnwys y Fframwaith ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

1.17
Yn ystod 2008-09, fe wnaethom barhau i gynnull Fforwm Arolygu ac Archwilio'r Gwasanaeth Prawf cenedlaethol. Nod y grŵp hwn – sy'n cynnwys y Comisiwn Archwilio, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Adran Archwilio Mewnol y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Sicrwydd Corfforaethol ac Archwilio erbyn hyn) a Phencadlys GCRhT yn ogystal ag Arolygiaeth Prawf EM – fu rhannu gwybodaeth ac ymgymryd â chynllunio ar y cyd er mwyn osgoi ailadrodd gwaith, ac i helpu i leihau effaith gweithgarwch arolygu ac archwilio ar fyrddau

prawf. Penderfynwyd yn awr y bydd yn briodol ar gyfer y dyfodol uno'r Fforwm â grŵp tebyg sydd wedi bod yn ystyried gwaith mewn carchardai, a ffurfio Grŵp Arolygu ac Archwilio'r GCRhT. Bydd cylch gwaith y grŵp hwn yn debyg ond bydd yn cynnwys gwaith y gwasanaeth carchardai a'r gwasanaeth prawf.

1.18
Mewn ffordd debyg, rydym wedi cydgysylltu'n agos ag Ofsted a'r Arolygiaethau eraill perthnasol, gan gynnwys y rheini yng Nghymru, ar ein cyfraniad drwy'r rhaglen arolygu Timau Troseddwyr Ifanc at arolygu gwasanaethau plant yn lleol; ac rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â'r Comisiwn Archwilio ac eraill ar ddatblygu'r AAC (gweler paragraff 1.10 uchod).

1.19
Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom barhau i gymryd rhan mewn gweithgarwch rhyngwladol i hyrwyddo gwaith prawf effeithiol. Ymwelodd Sandra Fieldhouse a Sally Lester â Bwlgaria i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r gwasanaeth prawf, ac aeth Sally Lester ar ymweliad tebyg i Groatia, fel y gwnaeth Steve Woodgate ac Alan MacDonald a ymwelodd â Romania a Thwrci. Parhaom hefyd â'n cysylltiadau â'r Gynhadledd Brawf Ewropeaidd, a pharhau i'w chefnogi. Siaradodd Andrew Bridges mewn digwyddiad dan adain y Gynhadledd yn Glasgow ym mis Ebrill 2008.

1.20
Yn ystod 2008-09, ymwelodd Andrew Bridges â nifer o leoliadau i gyfarfod â staff ac i drafod materion cyfredol. Erbyn canol 2007, roedd wedi ymweld â phob un o'r 42 ardal prawf ers ei benodi'n Brif Arolygydd, gyda sawl un yn derbyn mwy nag un ymweliad erbyn Ebrill 2009.

Datganiad o Ddiben a Chod Ymarfer

1.21
Gan droi at rai agweddau ar y ffordd y trefnwn ein hunain, teimlwn ei bod yn bwysig cael Datganiad o Ddiben a Chod Ymarfer clir, sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae'r rhain ar gael yn Atodiad A, a hefyd ar ein gwefan.

Trefn Gwyno

1.22
Rydym yn parhau'n gwbl ymrwymedig i sicrhau bod ein prosesau arolygu'n cael eu cynnal â didwylledd mewn ffordd broffesiynol, deg a moesgar, yn unol â'n Cod Ymarfer. Ond, mae ein Trefn Gwyno (sydd hefyd ar gael ar y wefan) yn cydnabod y gall sefyllfaoedd godi o hyd pan fydd sefydliad neu unigolyn a fu'n gysylltiedig ag arolygiad am gofrestru cwyn. Ymatebodd y Prif Arolygydd yn bersonol i'r unig lythyr cwyno a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn, ar ôl arolygiad TTI. Er bod anghytundeb ynghylch canfyddiadau ein harolygiad, nid oeddem wedi ymddwyn yn afresymol.

Strategaeth Sicrhau Ansawdd

1.23
Fel Arolygiaeth annibynnol, mae angen inni gynnig sicrwydd bod y gwaith a wnawn yn cael ei wneud i'r safonau uchaf, bod y gwaith a arolygwn yn cael ei

archwilio'n deg ac y penderfynwn ar ein canfyddiadau a'n barn drwy brosesau cyson a thryloyw. Mae ein Strategaeth Sicrhau Ansawdd cynhwysfawr yn rhoi'r strwythur inni allu craffu ar ein trefniadau a'n prosesau, gan anelu at sicrhau cysondeb barn a dibynadwyedd ar draws ein rhaglenni arolygu a, lle bo'n briodol, rhyngddynt.

1.24
Mae'r strategaeth yn cynnwys deg elfen, sy'n ymdrin â phob un o brif agweddau ein gwaith:

- amrywiaeth
- detholiad o samplau achosion
- holiaduron i ddefnyddwyr y gwasanaeth
- hyfforddi aseswyr ardal
- asesu achosion
- cyfarfodydd a chyfweliadau grŵp
- dadansoddi data
- ysgrifennu adroddiadau
- golygu adroddiadau
- cynhyrchu adroddiadau.

Defnyddir y rhain ar draws pob un o'n prif raglenni arolygu.

Yn ystod 2008-09, gwnaethom gynnydd sylweddol gyda chyflawni'r tasgau yr oeddem wedi gobeithio'u cyflawni, ond nid ydym yn llaesu dwylo. Mae wastad lle i wella, a thra bo rhai o'r tasgau erbyn hyn wedi'u gwreiddio yn ein prosesau, mae angen datblygu a mireinio rhagor ar rai o'r lleill. Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn i sicrhau bod ein prosesau arolygu o'r safon uchaf.

Staffio

1.25
Gwelsom nifer mawr o newidiadau ymysg staff yn ystod y flwyddyn, gyda chwe aelod staff yn ymuno ac 17 yn gadael. Roedd y trosiant cymharol uchel hwn, a'r gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd staff, yn bennaf yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer ein Haseswyr Ymarfer a staff arall a secondiwyd pan ddaeth y rhaglen Arolygu TTIau i ben, a hefyd y defnydd o staff dros dro oherwydd oedi wrth recriwtio staff gwasanaeth cymorth. Cynhaliwyd ymarfer recriwtio yn rhan olaf y flwyddyn i secondio Aseswyr Ymarfer i Arolygiaeth Prawf EM o ardaloedd prawf neu o'r TTIau, gyda'r bwriad o gael y staff yn ymuno â ni yng nghanol 2009 i gymryd rhan yn rhaglen arolygu ARhT 2 a'r rhaglen newydd ar gyfer Arolygu Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc.

1.26
Rydym yn parhau i gynnal a datblygu ein panel o Arolygwyr Cyswllt. Mae'r bobl hyn, sy'n cael ei recriwtio'n ôl yr un safonau llym â'n staff arolygu cyflogedig, yn gweithio i Arolygiaeth Prawf EM ar sail sesiynol a derbyn ffi ochr yn ochr â'n staff cyflogedig.

1.27
Mae Arolygiaeth Prawf EM eisoes yn amrywiol o ran sgiliau a chefndir, ac rydym wedi ymrwymo i gynnal ac ymestyn hyn. Mae'r ffaith bod ardaloedd

prawf, TTIau a sefydliadau yn secondio'u staff i ni yn gymorth yn hyn o beth, ac rydym yn ddiolchgar iawn am eu parodrwydd parhaus i wneud hynny.

1.28
Dangosir ein grŵp staff ar 31 Mawrth 2009 - gan gynnwys hefyd y panel o Arolygwyr Cyswllt sy'n derbyn ffi - yn Atodiad C.

Amrywiaeth

1.29
Anelwn at integreiddio egwyddorion gorau amrywiaeth yn ein hymarfer arolygu yn ogystal ag ym mhrosesau rheoli ein staff ein hunain. Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Sengl 2007-10 gennym, sy'n pennu amcan cyffredinol: *Gweithio i ddileu gwahaniaethu amhriodol yn y System Cyfiawnder Troseddol.* Rydym yn llunio ac yn gweithredu cynllun blynyddol ar wahân i gefnogi'r Cynllun hwn. Mae'r dogfennau hyn a dogfennau allweddol eraill ar gael ar ein gwefan.

1.30
Credwn ei bod yn bwysig iawn archwilio materion amrywiaeth yn ein prif raglenni arolygu. Rydym wedi cynnwys meini prawf allweddol yn ein prif raglenni i ganfod a yw unigolion sy'n troseddu'n cael eu trin yn gymesur ar bob cam o'r prosesau a arolygwn ai peidio, ni waeth beth yw eu nodweddion amrywiaeth. Rydym wedi cyhoeddi o'r blaen, a byddwn yn cyhoeddi eto yn y man, adroddiadau yn coladu'r canfyddiadau o set o arolygiadau i ddangos pa mor dda y cyflawnwyd gwaith gyda grwpiau penodol o unigolion, h.y. yn ôl hil, rhywedd, grŵp oedran, ayb. er mwyn gallu cymharu.

1.31
Anelwn hefyd at integreiddio egwyddorion gorau amrywiaeth o fewn Arolygiaeth Prawf EM, o ran sut yr ydym yn ein trefnu ein hunain ac yn trin eraill, a monitro sut y gwnawn hyn. Yn y cyswllt hwn, rydym yn monitro nodweddion amrywiaeth staff Arolygiaeth Prawf EM fel mater o drefn. Dengys yr wybodaeth hon, ar ddiwedd 2008, ymhlith grŵp staff Arolygiaeth Prawf EM yn gyfan*:

- bod 44% yn fenywod
- bod 7% o grŵp lleiafrif ethnig
- bod 7% yn ystyried bod ganddynt anabledd yn unol ag ystyr Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005
- bod 4% yn lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol
- bod 21% o dan 35 oed, a 68% yn 45 oed neu hŷn.

* Nid yw'r cyfrannau hyn yn cynnwys ymatebwyr yr oedd yn well ganddynt beidio ag ateb yng nghyswllt nodwedd benodol.

1.32
Yn rhan gyntaf 2008 cynaliasom unwaith eto y cynllun cysgodi ar gyfer staff du a lleiafrifoedd ethnig y gwasanaeth prawf a'r TTIau. Nod y cynllun - mesur gweithredu cadarnhaol a gymerwyd dan adrannau 37 a 38 Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) 2000 – yw hyrwyddo cyfle cyfartal drwy roi gwybodaeth i ymgeiswyr posibl o blith grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig am swyddi yn Arolygiaeth Prawf EM, a'u hannog i wneud cais amdanynt, mewn meysydd lle nad oeddynt wedi'u cynrychioli'n ddigonol o'r blaen, er bod y cynllun cysgodi'n cael ei gadw ar wahân i'r broses recriwtio. Mae'r cynllun – a fu'n weithredol

hefyd yn 2006 a 2007 – wedi cael derbyniad da iawn. Rydym yn adolygu ein profiad o redeg y cynllun, a'r achos dros wneud hynny eto yn y dyfodol.

1.33
Rydym yn parhau i weithio'n unol â'n Cynllun Iaith Gymraeg, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Yn y cyswllt hwn, mae gennym dudalen Gymraeg ar ein gwefan ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, ac rydym wedi sicrhau bod ein panel o Arolygwyr Cyswllt yn cynnwys dau aelod sy'n siarad Cymraeg.

1.34
Rydym hefyd yn cynnal asesiadau effaith amrywiaeth ar gyfer y prif brosesau yn ein rhaglenni arolygu rheolaidd.

Archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol

1.35
Gall ein staff sy'n gysylltiedig ag arolygiadau TTI gael cyswllt uniongyrchol â phlant a phobl ifanc, neu o leiaf â chofnodion sy'n cynnwys manylion personol amdanynt. Oherwydd hyn, mae'n bwysig fod ein holl staff cysylltiedig – staff gwasanaeth cymorth yn ogystal â staff arolygu – yn cael archwiliad manwl gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (CRB). Rydym hefyd o'r farn y dylai'r archwiliad ymwneud â chyswllt ag oedolion bregus yn ogystal â phlant. Rydym felly yn gwneud trefniadau ar gyfer hyn gan lynu wrth God Ymarfer y CRB yn y ffordd y gwnawn hyn. Mae ein dull gweithredu'n unol â'r disgwyliad sydd gennym wrth adolygu'r TTIau. Ar gyfer y dyfodol, byddwn yn gwneud y trefniadau priodol i adlewyrchu cyflwyno archwiliadau a drefnir gan yr Awdurdod Diogelu Annibynnol.

Cynllunio Gwaith Arolygu a Defnyddio Adnoddau

1.36
Lluniasom ein Cynllun ar gyfer 2008-09 ddechrau'r flwyddyn, gan osod allan ein dull gweithredu sylfaenol a'n cynlluniau penodol ar gyfer arolygiadau. (Roedd hwn ar gael ar ein gwefan.) I grynhoi, dywedai'r Cynllun y byddem erbyn diwedd Mawrth 2009 wedi cwblhau ein hamserlen o arolygiadau, gan gynnwys y Rhaglen Arolygu ar y Cyd, ar amser, o fewn y gyllideb ac i safon dda. Drwy wneud hynny, byddem wedi cynnal a datblygu ein cyfraniad hirdymor parhaus at wella gwaith effeithiol gyda throseddwyr a phobl ifanc.

1.37
Er mwyn monitro'n glir sut y defnyddir ein hadnoddau i gyflawni ein cynlluniau, rydym yn creu 'cyllideb' o 'oriau arolygu' y gellir eu defnyddio, ac yn monitro'r defnydd o'r oriau hyn yn ystod y flwyddyn. Ar gyfer 2008-09 roeddem yn bwriadu defnyddio 39,000 o 'oriau arolygu'. Mae dros 90% o'n gwaith arolygu wedi dod o dan y Rhaglen Arolygu ar y Cyd y mae'r holl arolygiaethau'n gyfrifol amdani.

1.38
Wrth adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, rydym yn falch o adrodd ein bod wedi cyflawni'r gwaith a oedd wedi'i gynllunio ar gyfer 2008-09 yn llwyddiannus, gan gynnwys cyfrannu'n llawn at y Rhaglen Arolygu ar y Cyd.

Pennod 2 – Gwaith gydag Oedolion sy'n Troseddu: Rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr

Trosolwg

2.1
2008-09 yw blwyddyn olaf cylch tair blynedd ar gyfer y rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr (ARhT), gyda'r digwyddiad olaf yn cael ei gynnal ym Mawrth. Gan barhau i edrych yn eang ar y broses o reoli troseddwyr gan nifer o asiantaethau'n gweithio ar y cyd ag ardaloedd prawf, cynaliasom 15 arolygiad yn yr ardaloedd cyfiawnder troseddol canlynol: De Cymru, Gogledd Cymru, Dyfed-Powys, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Gwent, Gorllewin Mersia, Swydd Stafford, Swydd Warwick, Gogledd Swydd Efrog, Gorllewin Swydd Efrog, Humberside, De Swydd Efrog, Teesside, Northumbria a County Durham.

Datblygu

2.2
Roeddem wedi gallu dechrau arolygu achosion o fewn cwmpas Cam III Model Rheoli Troseddwyr y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (GCRhT) gan ddechrau gyda Rhanbarth Swydd Efrog a Humberside ym mis Rhagfyr 2008. Roedd Cam III y Model Rheoli Troseddwyr yn ddatblygiad pwysig ac yn gryn her i'r ardaloedd prawf a'r carchardai o ran ehangu'r ddarpariaeth i grŵp arall o droseddwyr, gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth di-dor yn ystod y cyfnod dan glo a hyrwyddo'r broses o ailintegreiddio i'r gymuned ar ôl rhyddhau'r troseddwr.

Cyflwyno ARhT

2.3
Rydym wedi parhau i gasglu tystiolaeth i gyfrannu at ein canfyddiadau ARhT dan bedwar prif bennawd: asesu a chynllunio dedfryd; gweithredu ymyriadau; cyflawni a monitro canlyniadau; arweinyddiaeth a chynllunio strategol. Rydym wedi gosod ffocws penodol ar ansawdd y gwaith i asesu a rheoli *Risg o Niwed i eraill* ac wedi parhau i ddyfarnu sgôr ar wahân ar gyfer y 'llinyn' hwn. Mae pwyslais ein methodoleg o hyd ar asesu achosion yn fanwl – fe wnaethom graffu at 1854 achos yn 2008-09 drwy ddarllen cofnodion ffeiliau a chyfweld rheolwyr troseddwyr a goruchwylwyr troseddwyr. Rydym wedi darparu hyfforddiant gwell i Aseswyr Ardal – staff ardaloedd prawf sy'n gweithio gyda ni gydol cyfnod eu harolygiad – ac wedi gwella'r trefniadau cymorth a sicrhau ansawdd. Mae eu lefelau boddhad mewn perthynas â'u gwaith gyda ni wedi parhau'n uchel ac rydym wedi parhau i annog ardaloedd i ddefnyddio'u sgiliau mewn gweithgarwch gwella ar ôl arolygiad.

Gweithio gydag Arolygiaethau eraill

2.4

Mae'r ARhT wedi bod yn rhaglen arolygu ar y cyd, dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM. Mae Ofsted wedi chwarae rhan bwysig ym mhob un o'n harolygiadau yn ystod y flwyddyn ac rydym wedi cynnwys eu canfyddiadau hwy ar ddysgu a sgiliau troseddwyr yn ein hadroddiadau. Mae ein gwaith agos gydag Arolygiaeth Carchardai EM wedi cynnydu yn 2008-09 fel y disgrifir isod.

ARhT yn y Carchardai

2.5
Mae rhaglen lawn o ARhT yn y Carchardai wedi golygu cydweithio ag Arolygiaeth Carchardai EM ac ymuno â rhai o'u harolygiadau hwy o garchardai i asesu'r gwaith sy'n cael ei wneud dan Gamau II a III Model Rheoli Troseddwyr y GCRhT. Yn 2008-09, rydym wedi craffu ar drefniadau rheoli troseddwyr mewn 17 o sefydliadau cadw dan glo, yn bennaf o fewn ffiniau daearyddol y rhanbarthau prawf a arolygwyd - h.y. Gorllewin Canolbarth Lloegr, Swydd Efrog a Humberside a'r Gogledd Ddwyrain. Cafodd Carchardai EM Long Lartin, Brinsford, Dovegate, Askham Grange, Stoke Heath, Featherstone, Hull, New Hall, Wakefield, Wealstun (Agored/Caeedig), Everthorpe, Castington, Kirklevington Grange, a Holme House eu harolygu yn ogystal â dau sefydliad yn Llundain, Carchardai EM Brixton a Wormwood Scrubs, a Charchar EM y Parc yng Nghymru.

Daeth themâu cyffredinol pwysig i'r amlwg yn y pum adroddiad a gyhoeddwyd ar y cyd:

Mae Unedau Rheoli Troseddwyr wedi cael eu sefydlu yn yr holl garchardai a arolygwyd, ond roedd y rhain wedi'u hynysu weithiau ac roedd staff yn cael eu hanfon yn aml i wneud dyletswyddau gweithredol eraill

yn gyffredinol, roedd cynllunio dedfryd yn cael blaenoriaeth uchel, er nad oedd defnydd helaeth yn cael ei wneud o OASys i integreiddio'r holl gynlluniau ac asesiadau sydd ar gael, nid oedd rôl ganolog iddo ychwaith yn y broses o reoli ymyriadau

roedd lefelau cyswllt rhwng rheolwyr troseddwyr a charcharorion yn annigonol yn aml, a doedd dim digon o ddefnydd yn cael ei wneud o gyfleusterau cynadledda dros y ffôn a chysylltiadau fideo, neu'r rhain ddim ar gael o gwbl

effeithiwyd ar y gwaith o ddarparu ymyriadau i fodloni anghenion sy'n ymwneud â throseddu gan gapasiti a'r pwysau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth y carchardai

nid oedd asesiadau effaith amrywiaeth ar weithredu'r Model Rheoli Troseddwyr wedi'u cwblhau fel mater o drefn

roedd blaenoriaeth uchel yn cael ei roi i amddiffyn y cyhoedd rhag *Risg o Niwed*, ond roedd angen rhoi mwy o sylw i ddiogelwch dioddefwyr a bod yn fwy ymwybodol o ddioddefwyr.

Canfyddiadau ARhT

2.6
Mae'r graff canlynol yn dangos y sgoriau ar gyfer pob un o'r ARhT yn 2008-09 yng nghyswllt tair adran ymarfer ARhT: asesu; ymyriadau; a chanlyniadau.

Mae'r sgoriau'n cynrychioli cyfran y gwaith a arolygwyd a oedd wedi'i wneud yn ddigon da.



Sylwer: Dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau rhwng ardaloedd gan fod y sgoriau'n seiliedig ar samplau o achosion.

Cafwyd amrywiaeth sylweddol yn y sgoriau rhwng ardaloedd unigol ac o fewn y tri rhanbarth. Mae'r themâu sy'n dod i'r amlwg o'r canlyniadau hyn yn ddigon tebyg i'r rheini o'r ARhT mewn blynyddoedd blaenorol, gyda gwaith o ansawdd uwch yn amlwg adeg y cam asesu cyntaf nag o dan cynllunio, cyflwyno ymyriadau (er bod y bwlch yn llai) neu gynnydd a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod goruchwylio. Dyma rai o'r prif ganfyddiadau:

Asesu a Chynllunio Dedfryd

- Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr adroddiadau cyn-dedfrydu yn dda a'r dedfrydwyr yn fodlon â hwy.
- Fel arfer roedd yr asesiadau o'r *Risg o Niwed i eraill* a chynlluniau i roi sylw i hyn yn amserol. Ond, roeddem yn dal i ganfod bod angen gwella rhagor ar ansawdd y ddau agwedd ar ymarfer.
- At ei gilydd, roedd yr asesiadau (yn OASys) o angen troseddwyr a'r tebygolrwydd o aildroseddu wedi'u cwblhau'n dda er nad oedd rhai agweddau ar amrywiaeth troseddwyr wedi cael sylw digonol.
- Roedd cyfran sylweddol o gynlluniau dedfrydu nad oeddynt yn adlewyrchu'r asesiadau'n gywir nad yn gosod allan yn briodol cwmpas a manylion y goruchwylio dilynol.

Gweithredu Ymyriadau

- Yn rhy aml, nid oedd y cyswllt â throseddwyr yn berthnasol i'r cynllun dedfrydu.

- Gwelsom gyfathrebu da rhwng yr ymarferwyr a oedd yn gysylltiedig â chyflwyno ymyriadau, ond roedd hyn gryn dipyn yn llai ar gyfer achosion yn ystod y cam cadw'n gaeth.
- Roedd angen hyrwyddo'r gwaith o roi sylw i ddiogelwch dioddefwyr ac ymwybyddiaeth o ddioddefwyr.
- At ei gilydd, roedd ymyriadau adeiladol ('*cymorth* a '*newid'*) yn cael eu cyflwyno'n briodol, ond fe sylwon ni ar broblemau chapasiti yng nghyswllt rhaglenni achrededig a gwaith dilynol anghyson gydag asesiadau sgiliau byw.
- Fel arfer roedd ymyriadau cyfyngu penodol ('*rheoli'*) yn cael eu rheoli'n effeithiol ac roedd adeiladau cymeradwy'n cael eu defnyddio'n effeithiol.
- Roedd cyfrifoldebau troseddwyr i gydymffurfio â'r broses oruchwylio'n cael sylw yn gynnar ac roedd presenoldeb troseddwyr yn cael ei reoli'n dda. Gwelsom fwy o ffocws yn cael ei roi ar gydymffurfio, gydag amrywiaeth o ddulliau arloesol yn cael eu defnyddio i gyflawni hyn. Parhawyd i ddelio'n briodol yn y rhan fwyaf o achosion â gorfodaeth a thorri amodau.

Cyflawni a Monitro Canlyniadau

- Nid oedd y rhan fwyaf o droseddwyr wedi cael eu dyfarnu'n euog eto na chael rhybuddiad yn ystod y cyfnod goruchwylio y buom yn craffu arno (fel arfer chwech i 12 mis)
- Fel yn y flwyddyn flaenorol, ychydig o dystiolaeth oedd ar gael o newid ymddygiad neu agwedd ar ran troseddwyr ac roedd lefel yr ymwybyddiaeth o ddioddefwyr yn isel.
- Roedd manteision amlwg i'r gymuned mewn sawl achos yn enwedig drwy gwblhau gwaith di-dâl.
- Roedd cynnydd troseddwyr yn llai nag y gallasai fod – roedd hyn yn cysylltu'n ôl ag ansawdd y gwaith cynllunio dedfryd a'r diffyg ffocws ar roi'r gwaith hwnnw ar waith.
- Fel mewn blynyddoedd a fu, roedd cyfuno dysgu a sgiliau newydd yn faes pwysig ar gyfer gwella. Ond, gwelsom waith da yn cael ei wneud yn sicrhau bod troseddwyr yn cael eu cysylltu ag adnoddau cymunedol perthnasol.

2.7

Drwy grwpio ynghyd ein dyfarniadau achos-wrth-achos ynglŷn â'r gwaith Risg o Niwed, rydym wedi gallu rhoi sgôr yn yr ARhT sy'n adlewyrchu ansawdd y gwaith sydd wedi'i wneud mewn ardaloedd prawf i ddiogelu'r cyhoedd rhag niwed. Mae'r sgôr yn cynrychioli pa mor aml y cafodd y maes gwaith hwn ei wneud yn ddigon da. Yn gyffredinol, y sgôr ar gyfartaledd ar draws yr holl ARhTau ers dechrau'r rhaglen ym mis Mai 2006 oedd 69%, gyda chryn amrywio ar draws ardaloedd unigol, o 56% i 85%. Dangosir y sgoriau ar gyfer yr arolygiadau ardal yn 2008-09 yn y graff canlynol:



Sylwer: Dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau rhwng ardaloedd gan fod y sgoriau'n seiliedig ar samplau o achosion.

Yn y flwyddyn hon, sicrhaodd yr ardaloedd prawf sgoriau rhwng 65% ac 80% ar gyfer y maes gwaith pwysig ac anodd hwn. Yn gyffredinol, parhaodd ansawdd y gwaith i godi – dangosai hyn ymdrech gyson gan staff a rheolwyr i weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i leihau i'r eithaf y *Risg o Niwed i eraill* a achosir gan droseddwyr. O fewn y tueddiad cyffredinol hwn, ac er mwyn dangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd, roedd angen gwneud gwelliannau i'r gwaith cynllunio penodol ar gyfer rheoli'r *Risg o Niwed*, gan roi sylw i newidiadau a chynnwys rheolwyr mewn achosion lle roedd angen hynny.

Sut y derbyniwyd yr ARhT gan y rhai y cafodd eu gwaith ei arolygu

2.8
Yn unol â'n trefniadau sicrhau ansawdd (gweler paragraffau 1.23 a 1.24), a'n nod o feithrin ymgysylltiad cadarnhaol â'r rheini y mae eu gwaith yn cael ei arolygu gennym, gofynasom am adborth gan staff, rheolwyr a phartneriaid y gwasanaeth prawf a gyfwelwyd fel rhan o'r ARhT yn 2008-09. Dangosir y canlyniadau – sy'n seiliedig ar 1,313 o ymatebion – yn y siart canlynol ac maent yn gadarnhaol:

Adborth gan staff, rheolwyr a phartneriaid a gyfrannodd at yr ARhT



Dyma rai sylwadau gan y rhai a arolygwyd:
“cyfweliad a’m grymusodd yn fawr – cefais fy nhrin fel gweithiwr proffesiynol”
“trafodaeth hawdd ac agored iawn, ond wedi'i rheoli’n dda ac i’r pwynt”
“roedd y sylw i faterion cydraddoldeb hil/amrywiaeth ehangach yn drwyadl”
“bu'r ffordd gyfeillgar y cynhaliwyd y cyfweliad o gymorth i mi weld y cyfweliad fel ymarfer dysgu yn hytrach na rhywbeth lle roedd rhywun yn ‘craffu’ ar fy ngwaith"

Arolygiadau Cefnogi Pobl

2.9
Rydym wedi cwblhau ein hymrwymiad i weithio ar y cyd â'r Comisiwn Archwilio ar y rhaglen arolygu Cefnogi Pobl. Yn 2008-09, cafodd y gwaith hwn ei asesu gennym yn Wolverhampton, Southend, Northumberland, Bradford, Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln, Walsall, Swydd Amwythig, Rochdale, Swydd Lincoln, Swydd Hertford a Sefton.

Y Flwyddyn Nesaf

2.10
I baratoi ar gyfer Medi 2009 rydym wedi bod yn datblygu ein rhaglen olynol, ARhT 2 (*OMI 2*), ac adeg paratoi'r adroddiad hwn rydym wedi cyrraedd y cam peilot ar gyfer yr elfennau cymunedol a charchardai. Ein dull gweithredu yw adeiladu ar y rhaglen gyfredol; mae’r meini prawf adolygu'n canolbwyntio’n fwy ar ganlyniadau ac rydym wedi cadw elfennau craidd y fethodoleg arolygu. Mae Ofsted ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM wedi bod yn ymwneud â’r cam

datblygu a'r cam treialu. Bydd ein gwaith gydag Arolygiaeth Carchardai EM hefyd yn symud i gam newydd wrth inni ddechrau arolygu achosion yn y carchardai, rhai yn dod o dan y model rheoli troseddwyr, eraill ddim.

2.11
Bydd ARhT 2 yn dechrau ym mis Medi 2009 a bwriadwn gynnal 8 arolygiad yn rhan olaf 2009-10.

Pennod 3 - Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc: Rhaglen Arolygu Ardaloedd

Trosolwg

3.1
Dechreuodd rhaglen Arolygu'r Timau Troseddwyr Ifanc (TTI) yn 2003 a'i chwblhau ym mis Rhagfyr 2008. Cyhoeddwyd *Adroddiad Diwedd Rhaglen* ym Mawrth 2009, a'i lansio yn Neuadd Bridgewater Manceinion. Canolbwyntiai'r adroddiad ar gynnydd a materion nad oeddynt wedi'u cyflawni a ddaeth i'r amlwg yn ystod pum mlynedd y rhaglen arolygu.

3.2
Rydym wedi defnyddio data o'r rhaglen i lunio nifer o adroddiadau, gan gynnwys '*Actions Speak Louder*', cyhoeddiad ar y cyd gan y Comisiwn Gofal Iechyd ac Arolygiaeth Prawf EM, dogfen debyg gan Ofsted ac Arolygiaeth Prawf EM yn edrych ar addysg, hyfforddiant a chyflogaeth, nifer o bapurau briffio ar arferion da ac adroddiad penodol ar berfformiad yng Nghymru.

3.3
Gydol 2008, parhaodd yr arolygiadau TTI yn Lloegr i fod yn gysylltiedig â'r Cydarolygiadau Ardal, dan arweiniad Ofsed a'r Asesiadau Corfforaethol o wasanaethau awdurdodau lleol dan arweiniad y Comisiwn Archwilio. Canolbwyntiau'r Cydarolygiadau Ardal ar Blant sy'n Derbyn Gofal, y rheini ag anawsterau dysgu ac anableddau a Diogelu, ynghyd ag ymholiadau penodol am awdurdodau neilltuol. Erbyn diwedd y broses, roedd cyfraniadau'r TTIau at y Cydarolygiadau Ardal wedi'u targedu'n well ac roedd ein harolygwyr ni a'r rhai a oedd yn arwain y Cydarolygiadau'n fwy ymwybodol o'r ffordd orau i ni gyfrannu at y darlun ehangach.

3.4
Roedd y cysylltiad â'r Cydarolygiadau Ardal yn rhoi mwy o sylw yn Lloegr i'r TTIau o fewn yr awdurdod lleol. Weithiau hefyd, mae ein canfyddiadau wedi dylanwadu ar raddau'r Cydarolygiadau Ardal a oedd yn adlewyrchu arfer anfoddhaol yn y TTI, yn ymwneud gan fwyaf â materion Diogelu neu'r cydgysylltiad â'r gwasanaethau plant ehangach.

Cyflwyno Arolygiadau TTI

3.5
Roedd yr arolygiadau yn ystod Cam 4 yn adlewyrchu pum maes gwaith:

- Gwaith yn y llysoedd
- Gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned
- Gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n wedi cael dedfrydau o gaethiwed
- Dioddefwyr a Chyfiawnder Adferol
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.

Ond, mewn ymateb i geisiadau gan TTIau, cafodd gwaith ataliol ei sgorio ar wahân i waith gyda'r rheiny a oedd wedi troseddu, fel y digwyddodd gyda

gwaith gyda rhieni/gofalwyr ac ymgynghori/canlyniadau. Roedd hyn yn rhoi wyth adran i bob TTI, gan ddefnyddio graddau'r Cydarolygiadau Ardal canlynol:

4 Rhagorol
3 Da
2 Digonol
1 Annigonol.

Ni roddwyd gradd gyffredinol ar gyfer y gwasanaeth gan y teimlem fod hyn yn tynnu oddi ar fanylder yr adroddiad a'r meysydd yr oedd angen rhoi sylw iddynt ar gyfer pob agwedd ar y ddarpariaeth gwasanaeth.

3.6
Yr hyn a ganfuom oedd perfformiad cymysg ar draws y rhai a arolygwyd yn ystod 2008. Cafwyd pocedi o arfer da a rhagorol, ond ni welsom unrhyw TTI a oedd yn rhagori ar draws yr holl feysydd. Felly, ni all yr un gwasanaeth troseddwyr ifanc fod yn ddi-hid, ac mae llawer ganddynt i'w ddysgu oddi wrth ei gilydd.

3.7
Mewn gwaith ataliol, roeddem yn falch o weld atgyfeiriadau wedi'u cysylltu'n glir â meini prawf y cynllun ac asesiadau Onset yn cael eu defnyddio'n rhagweithiol ac yn rhoi sylw dyledus i faterion amrywiaeth. Ond, nid oedd cynlluniau ymyrryd wedi'u paratoi ym mhob achos, ac o'r rhai a oedd wedi'u paratoi, nid oedd tri chwarter ohonynt yn cynnwys amcanion a oedd yn canolbwyntio ar ganlyniadau na strategaethau ymadael clir pan oedd cysylltiad y TTI yn dod i ben. Wrth i adnoddau gael eu neilltuo i'r maes gwaith hwn, rydym wedi gweld gwelliannau dros amser, ond y mae problemau o hyd yn ymwneud â bregusrwydd y grŵp hwn o blant a phobl ifanc ynghyd â darpariaeth wael ar gyfer eu hanghenion gofal iechyd.

3.8
Y maes nesaf i'w archwilio gennym oedd gwaith yn y llysoedd. Tra oedd y cysylltiadau rhwng y llysoedd a'r TTIau yn aml yn cael eu hystyried yn gadarnhaol gan y ddwy ochr, gwelir canlyniadau'r cysylltiadau hyn yn effeithiolrwydd (neu beidio) y canlyniadau i'r plant a'r bobl ifanc a'r gymuned. Weithiau roedd yr ymddiriedaeth yn y TTI yn brin a gwelid hyn drwy ganlyniad ymddangosiadau llys lle roedd remandio i gadw'n gaeth a dedfrydau o gadw'n gaeth (pan oedd pob mater arall yn gyfartal) yn uchel. Roedd adroddiadau cyn-dedfrydu, er eu bod yn wrthrychol a heb iaith wahaniaethol a stereoteipiau, yn aml yn rhy hir ac yn ddisgrifiadol yn hytrach nag yn ddadansoddol. Nid oedd yr awduron bob amser yn gwahaniaethu rhwng *Risg o Niwed i eraill* a'r Tebygolrwydd o Aildroseddu.

3.9
Roedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc yn y gymuned yn cynnwys ein barn am gwblhau *Asset*, cynlluniau ymyrryd ac asesiad o'r canlyniadau a gyflawnwyd. Er inni ganfod mwy o asesiadau amserol a chynlluniau ac adolygiadau, a oedd yn fwy sensitif i faterion amrywiaeth nag yn y gorffennol, barnwyd nad oedd ansawdd asesiadau Asset, gan gynnwys asesiad y plentyn neu'r unigolyn ifanc ei hun o'i ymddygiad, yn ddigonol mewn traean o achosion. Er syndod inni hefyd, dim ond mewn hanner yr achosion yr oedd ymweliadau cartref amserol a

phwrpasol wedi'u cyflawni a'u hail-adrodd yn ôl yr angen. Nid oedd ymyriadau'n rhoi sylw digonol i *Risg o Niwed i eraill*, a dim ond yn hanner yr achosion lle'r oedd ei angen y cafwyd ymwneud gan reolwyr canol neu uwch. Dim ond yn hanner yr achosion a arolygwyd yr oedd y cynlluniau ymyrryd yn rhoi sylw digonol i Ddiogelu.

3.10
Rydym wedi gweld gwelliant yn y ddarpariaeth gofal iechyd, yn arbennig yng nghyswllt camddefnyddio sylweddau, ond roedd hyn yn dal i amrywio'n fawr rhwng y TTIau gwahanol. Roedd y ddarpariaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc 16 a 17 oed yn wael, ac ychydig iawn o werthuso a oedd yn cael ei wneud o'r ymyriadau iechyd. Yn aml, roedd gan blant a phobl ifanc a oedd mewn cysylltiad â'r TTI broblemau i'w goresgyn, yn arbennig ymddwyn mewn ffordd a oedd yn peri risg o niwed iddynt hwy eu hunain. Roeddynt hefyd yn wynebu risg o niwed posibl gan eraill, gan gynnwys oedolion cyfarwydd megis rhieni/gofalwyr. Nid oedd y TTIau yn rhoi digon o sylw i'r maes gwaith hwn, gan gynnwys prinder llety diogel ac addas.

3.11
Roedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn faes lle roedd targed yr awdurdodau lleol yng nghyswllt y rhai Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ddatblygiad amrywiaeth o adnoddau amgen sydd ar gael ar gyfer y grŵp hwn o blant a phobl ifanc, er bod llawer yn dal i'w wneud, yn arbennig ar gyfer y rhai sydd dros yr oed ymadael-â'r-ysgol statudol.

3.12
Cafwyd rhai enghreifftiau o waith llawn dychymyg gyda rhieni/gofalwyr, gan gynnwys hunan-gymorth a mentoriaid magu plant, ond roedd prinder sgrinio a hyfforddiant cyffredinol o hyd ar gyfer rheolwyr achos cyffredinol.

3.13
Ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny dan glo, gwelsom staff y TTIau yn gweithio'n galed i fynychu cyfarfodydd y cynllun hyfforddi, ond gwelsom hefyd gyfathrebu a chysylltiadau gwael rhwng iechyd ac addysg ar draws y rhaniad cymuned/caethiwed. Nid oedd materion *Risg o Niwed i eraill,* Diogelu ac amrywiaeth yn cael sylw digonol, ac er bod atgyfeirio'n digwydd i grwpiau ymddygiad troseddol yn y sefydliadau cadw'n gaeth, anaml y cyflwynwyd gwaith y rhaglen.

3.14
Roedd gwaith gyda dioddefwyr a chyfiawnder adferol yn elfen a oedd yn amrywio'n fawr rhwng ardaloedd – rhai yn berchen ar strategaeth cyfiawnder adferol gynhwysfawr, ond eraill heb ddim ac, yn arbennig, diffyg sylw i ddiogelwch dioddefwyr. Mewn rhai TTIau doedd fawr o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd orau o ymgysylltu â dioddefwyr, a phan oedd ymgysylltiad, yn aml nid oedd rheolwyr achos yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd.

3.15
Ein profiad hyd yma, yn arbennig gyda'r ardaloedd hynny sy'n wynebu ailarolygiad, yw bod bodolaeth rheolwr TTI cryf ac abl yn gallu gwneud

gwahaniaeth mawr i ansawdd y gwaith gweithredol a wneir, ond gall diffyg trefn lywodraethu strategol hefyd gael effaith fawr. Heb hyn ni fydd rheolwr TTI effeithiol yn cael ei herio na'i ddal i gyfrif a bydd yn ei chael yn anodd datblygu'r gwasanaeth. Wrth inni asesu'r broses rheoli ac arwain, gwelwyd bod y TTIau yn cael eu hintegreiddio'n well o fewn strwythurau strategol awdurdodau lleol (yn achos gwasanaethau plant a throseddol) a hynny'n rhywbeth i'w groesawu, ond nad oedd pob un o'r rhain wedi'i ddatblygu'n dda hyd yma, megis y Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth.

3.16
Roedd rhan o'n harolygiad yn cynnwys ymgynghori â defnyddwyr gwasanaethau, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni / gofalwyr a dioddefwyr. Roedd y rhan fwyaf yn canmol y TTI, ond teimlai rhai plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu cadw dan glo y gallai eu rheolwr achos fod wedi gwneud mwy i'w helpu yn ystod eu caethiwed.

Sut y derbyniwyd yr arolygiadau o'r TTIau gan y rhai y cafodd eu gwaith ei arolygu

3.17
Yn unol â'n trefniadau sicrhau ansawdd (gweler paragraffau 1.23 a 1.24), a'n nod o feithrin ymgysylltiad cadarnhaol â'r rheini y mae eu gwaith yn cael ei arolygu gennym, gofynasom am adborth gan staff, rheolwyr a phartneriaid y TTIau a gyfwelwyd fel rhan o'r arolygiadau o'r TTIau yn 2008-09. Dangosir y canlyniadau – sy'n seiliedig ar 2,750 o ymatebion – yn y siart canlynol ac maent yn gadarnhaol:



Dyma rai sylwadau gan y rhai a arolygwyd:
“profiad cadarnhaol iawn”
“pobl broffesiynol iawn yn cyflawni’u dyletswyddau mewn ffordd broffesiynol iawn”
“wedi’u cynnal yn arbennig o dda heb fod yn fygythiol - llwyddwyd i gael trafodaeth dda ar dystiolaeth a chanlyniadau"
“roedd y broses yn addysgiadol, yn effeithiol ac yn ddefnyddiol”.

Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

3.18
Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Er bod gennym farn wahanol ar rai materion o hyd, rydym wedi gweithio’n galed, ond gan gadw ein hannibyniaeth yr un pryd, i sicrhau nad ydym yn rhoi negeseuon sy’n gwrthdaro i’r rhai sy’n gweithio yn y maes cyfiawnder ieuenctid. Dan y rhaglen arolygu olynol (gweler y paragraff nesaf) bydd mwy o ryng-gysylltu rhwng y gwaith monitro a wneir gan y Bwrdd a’r argymhellion a geir o arolygiadau, gyda chynlluniau gwelliant yn cael eu hymgorffori yn Fframwaith Cynllunio Cyfiawnder Ieuenctid y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Gan y bydd yr Arolygiadau Achosion Craidd (gweler isod) yn cael eu cynnal ar sail ranbarthol neu ar sail Cymru, bydd hyn yn galluogi’r ddau sefydliad i gyfathrebu’n rhanbarthol, yn ogystal ag yn genedlaethol, yn y dyfodol.

Datblygu a’r Flwyddyn Nesaf

3.19
Yn ystod hanner olaf 2008 a chwarter cyntaf 2009, rydym wedi datblygu rhaglen olynol a fydd yn edrych ar ansawdd y gwaith gyda throseddwyr ifanc o’r enw ‘Arolygu Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc’ (AGTI - *IYO*). Dechreuodd y rhaglen hon – a arweinir gan Arolygiaeth Prawf EM – ym mis Ebrill 2009 ac mae ganddi ddwy brif elfen:

i**) Arolygiad Achosion Craidd (AAC)** – rhaglen arolygu dreigl dair blynedd a fydd yn archwilio’r gwasanaethau unigol a ddarperir i blant a phobl ifanc sydd wedi troseddu ac sy’n cael eu goruchwylio gan y TTI. Mae'r rhaglen newydd hon, mwy cadarn ei ffocws, yn dyblygu rhai o’n dulliau presennol ac mae’n fodd inni weld sut y mae perfformiad mewn gwirionedd. Y prif agweddau y byddwn yn eu harolygu fydd Diogelu, Amddiffyn y Cyhoedd (*Risg o Niwed i eraill)* a’r Tebygolrwydd o Aildroseddu. Byddwn yn parhau i gynnal ein ffocws ar arolygu achosion i ganfod pa mor aml y cyflawnir gwaith i safon sy’n ddigon uchel. Gan gadw’r Asesiad Ardal Cynhwysfawr mewn cof, ar gyfer TTIau sy’n gwasanaethu mwy nag un awdurdod gweinyddu lleol, byddwn yn cynyddu ein sampl o achosion er mwyn inni allu rhoi sylwadau’n benodol ar y gwaith ymhob un o'r awdurdodau hynny.

Mewn datblygiad ar wahân, er ei fod yn rhywbeth yr ydym wedi'i ddefnyddio yn ein rhaglen ar gyfer oedolion, rydym yn hyfforddi aseswyr rhanbarthol i weithio gydag arolygwyr Arolygiaeth Prawf EM ar yr AACau. Ymarferwyr profiadol o un o’r TTIau yw’r rhain yr ydym yn cael eu ‘benthyg’ am ddau ddiwrnod

hyfforddiant ac sydd wedyn yn gweithio gyda ni yn ystod wythnos o arolygu. Ni fydd aseswyr rhanbarthol yn arolygu gwaith eu TTI eu hunain ond, yn hytrach, gwaith tîm arall yn yr un rhanbarth. Staff Arolygiaeth Prawf EM fydd yn gwneud y rhan fwyaf o'r gwaith maes sy'n gysylltiedig ag arolygu, er y bydd gan Arolygiaethau eraill megis Ofsted a'r Comisiwn Ansawdd Gofal (CAG) rywfaint o ran hefyd. Rhagwelir y bydd Ofsted a'r CAG yn adrodd ar eu canfyddiadau ar sail ranbarthol. Bydd y canfyddiadau o'r AAC yn cyfrannu at y rhaglen Asesiad Ardal Cynhwysfawr dan law'r Comisiwn Archwilio (gweler paragraff 1.10).

ii) **Arolygiadau Thematig** – mae cynlluniau 2009-10 yn cynnwys pedwar arolygiad yn cwmpasu gangiau, gwaith ataliol, camddefnyddio alcohol a throseddu, a gwaith ac adroddiadau llys. Bydd pob arolygiad thematig yn para ryw 12 mis o'r dechrau i'r diwedd gan gynnwys amser paratoi, arolygiad peilot, gwaith maes ac ysgrifennu'r adroddiad. Cyflawnir y gweithgareddau gan sawl Arolygiaeth, gyda'r arolygiad sy'n ymwneud â gangiau dan law Arolygiaeth Carchardai EM, atal dan Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM, camddefnyddio alcohol a throseddu dan y CAG, a gwaith ac adroddiadau llys gan Arolygiaeth Prawf EM. Cynhelir y gwaith maes mewn tri phrif gyfnod - rhwng Ebrill a Gorffennaf, yn ystod hydref a gwanwyn 2010, gyda saith ardal fel arfer yn cael sylw ymhob arolygiad.

Pennod 4 - Arolygiadau Thematig ar y Cyd

Trosolwg

4.1
Rydym wedi cael cysylltiad agos ag amrywiaeth eang o arolygiadau thematig yn ystod 2008-09, gan gydweithio'n agos â'n cydweithwyr mewn Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill. Roedd yr holl arolygiadau hyn yn ffurfio rhan o Gynllun Busnes Arolygu ar y Cyd 2008-09.

4.2
Fel arolygiaeth arweiniol, rydym wedi cyhoeddi un adroddiad thematig ar y cyd eleni, *A Complicated Business,* arolygiad a gynhaliwyd gydag Arolygiaeth Gweinyddiaeth Llysoedd EM (HMICA) ac Arolygiaeth Cwnstabliaeth EM (HMIC) ynglŷn â chyrffyws a fonitrir yn electronig. Hefyd, rydym wedi arwain pedwar arolygiad thematig ar y cyd arall, a'r rheini bron â'u cwblhau adeg paratoi'r adroddiad hwn, ac fe'u cyhoeddir yn 2009. Mae'r arolygiadau hyn yn delio â'r agweddau canlynol o'r System Cyfiawnder Troseddol: Dedfrydau Carchar Amhenodol; Troseddwyr sydd ag Anhwylderau Meddwl; Troseddwyr Rhyw; a Throseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ddogfen gwmpasu ar y nifer anghymesur o Fwslimiaid yn y System Cyfiawnder Troseddol.

4.3
***A Complicated Business* – Arolygiad ar y Cyd o orchmynion, trwyddedau a gofynion cyrffyw sy'n cael eu monitro'n electronig**. Cafodd yr arolygiad ei gynnal ar y cyd gan Arolygiaeth Prawf EM, HMICA a HMIC. Ei bwrpas oedd asesu effeithiolrwydd monitro electronig wrth reoli troseddwyr yn y gymuned ac felly roedd yn canolbwyntio ar bobl ifanc ac oedolion y mae monitro electronig naill ai'n ofyniad o'u dedfryd llys neu'n un o amodau eu trwydded ar ôl cael eu rhyddhau o gaethiwed.

4.4
Yn ystod y gwaith maes, archwiliasom 286 o achosion. Fe wnaethom ymweld hefyd â phum ardal prawf a phum Tîm Troseddwyr Ifanc (TTIau) yn County Durham, Caint, Llundain, Gogledd Cymru a De Swydd Efrog yn ogystal â dau gwmni, *G4S* a *Serco*, sydd dan gontract i ddarparu gwasanaeth monitro electronig.

4.5
Canfuom fod cyrffyws a fonitrir yn electronig yn opsiwn dedfrydu gwerthfawr ar gyfer llysoedd ac yn gyfrwng defnyddiol ar gyfer rhyddhau carcharorion yn gynnar o gaethiwed mewn achosion priodol. Teimlem y gallai cyrffyws wneud cyfraniad pwerus i'r gwaith o oruchwylio troseddwyr yn effeithiol ar ôl eu dedfrydu petai'r broses yn cael ei hintegreiddio'n well i ymarfer prif ffrwd, ac roeddem o'r farn fod y methiant i wneud hynny yn '*gyfle wedi'i golli'.*

4.6
Roeddem yn arbennig o bryderus am y polisi gorfodi ar gyfer cyrffyws a roddwyd yn ddedfryd gan y llysoedd. Gwelsom ei fod yn wahanol iawn i'r ffordd yr oedd gofynion cymunedol eraill yn cael eu gorfodi a'r hyn y byddai'r llysoedd

a’r cyhoedd yn rhesymol yn ei ddisgwyl. Felly roeddem yn argymell ail-feddwl eto am orfodi achosion cyrffyw, gan fabwysiadu’r hyn y gellid ei alw’n ddull gweithredu ‘Smart’ ar gyfer arfer gorfodi a chydymffurfio. Byddai hwn yn cael ei osod yng nghyd-destun arfer gorau ym maes rheoli troseddwyr yn gyffredinol ac, fel mathau eraill o oruchwyliaeth yn y gymuned, byddai’n gweithio i derfynau tynnach a thryloyw, ond gyda mwy o ddisgresiwn mewn achosion unigol priodol.

4.7
Cyhoeddwyd yr adroddiad yn Hydref 2008, ac roedd yn cynnwys yr argymhellion canlynol er mwyn gwella perfformiad:

Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr:

- adolygu a diwygio’i strategaeth rheoli troseddwyr drwy:
  - sicrhau bod y cyrffyw a fonitrir yn electronig yn cael ei integreiddio’n llawn i arfer rheoli troseddwyr
  - datblygu dull gweithredu ‘Smart’ ar gyfer cydymffurfio a gorfodi, gan weithio i derfynau tynnach a thryloyw, ond gyda mwy o ddisgresiwn mewn achosion unigol priodol
  - adolygu'n benodol rôl y rheolwr achos / troseddwr yng nghyswllt gorfodi achosion Cyrffyw Cadw yn y Cartref.

Dylai Asiantaeth Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid:

- ddarparu arweiniad i staff i sicrhau y rheolir troseddwyr yn effeithiol drwy integreiddio cyrffyws yn y broses cynllunio ymyriadau neu'r ddedfryd.

Dylai ardaloedd prawf a Gwasanaethau/Timau Troseddwyr Ifanc:

- integreiddio’r cyrffyw a fonitrir yn electronig i'w gwaith o reoli pob achos perthnasol gan sicrhau bod:
  - gwybodaeth berthnasol am fregusrwydd y troseddwr neu *Risg o Niwed i eraill* yn cael ei throsglwyddo i’r cwmni monitro electronig ar y cyfle cyntaf
  - y Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Aml-Asiantaeth /statws Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth bob amser yn cael ei chyfleu'n glir i’r cwmnïau monitro electronig
  - rheolwyr troseddwyr / achosion yn datblygu arferion gorau ar gyfer rheoli elfen cydymffurfio a gorfodi pob achos unigol, gan gynnwys lle y bo'n berthnasol, rhoi gwybod fel mater o drefn i'r cwmnïau monitro electronig am eu penderfyniadau ynghylch gorfodi, a chofnodi eu rhesymau, ar yr achlysuron prin hynny pan benderfynant beidio â dilyn y cyngor a roddwyd ar orfodi.

Dylai Gwasanaeth Llysoedd EM:

- wella'r gwaith o drosglwyddo gwybodaeth bwysig am bob achos i'r cwmni monitro electronig perthnasol drwy:

  ddarparu set o ffurflenni cenedlaethol clir a hawdd eu defnyddio, wedi'u hategu gan gyfarwyddiadau clir ar sut i'w defnyddio a thrwy hyfforddiant. Dylai'r defnydd ohonynt fod yn orfodol a'i fonitro.

  sicrhau y goruchwylir trefniadaethau gweinyddol y llysoedd yn well er mwyn i'r gorchmynion a gyhoeddir gan swyddfa'r llys adlewyrchu'n gywir y ddedfryd a roddir gan ynadon a barnwyr.

Dylai'r cwmnïau monitro electronig:

- os bydd amodau'n cael eu torri, sicrhau y cyfathrebir yn well â rheolwyr troseddwyr / achosion ynghylch hynny, gan gynnwys crynodeb syml ar bob achos
- adolygu eu gweithdrefnau i amddiffyn a diogelu eu staff yng ngoleuni canfyddiadau'r adroddiad hwn.

Dylai Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu:

- ystyried newid gweithdrefnau gweithredu Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu i gynnwys baner neu arwydd rhybudd ar du blaen cofnod troseddwr i ddangos bod yr unigolyn yn destun gorchymyn cymunedol sy'n cael ei fonitro'n electronig.

Troseddwyr Mynych a Throseddwyr â Blaenoriaeth Eraill

4.8
Roedd yr arolygiad hwn yn canolbwyntio ar elfennau *Dal a Chollfarnu* ac *Ailsefydlu ac Ymsefydlu* strategaeth Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth; roedd yn ceisio ystyried cyfraniadau asiantaethau cyfiawnder troseddol unigol i'r rhaglen yn erbyn y "Gwasanaeth Premiwm Cenedlaethol" ac asesu eu heffeithiolrwydd. Arweiniwyd yr arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EM, gyda chymorth gan HMICA, Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron EM (HMCPSI), Arolygiaeth Carchardai EM a HMIC.

4.9
Roedd methodoleg yr arolygiad yn seiliedig ar astudiaeth gwmpasu a gyflawnwyd yn 2007-08 a'i datblygu yn ystod gwanwyn a haf 2008-09. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng Medi a Tachwedd 2008 yn Camden, Cumbria, Norwich, Plymouth, Sandwell ac Abertawe.

4.10
Mae'r canfyddiadau o'r gwaith maes yn cael eu coladu ar hyn o bryd a disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ystod haf 2009. Awgryma canfyddiadau cychwynnol y bydd yr adroddiad yn nodi'r angen i leoli'r gwaith a wneir gyda Throseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth yn fwy cadarn dan y Model Rheoli Troseddwyr sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd; bydd yn rhoi sylwadau ffafriol

ar weithrediad cynlluniau Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth yn y gymuned, ond yn amlygu pryderon am weithrediad y Gwasanaeth Premiwm Cenedlaethol, mewn carchardai yn arbennig.

Arolygu Dedfrydau Amhenodol er mwyn Amddiffyn y Cyhoedd

4.11
Cafodd yr arolygiad hwn ei gynnal ar ddau gam. Arweiniwyd y cam cyntaf gan Arolygiaeth Carchardai EM gyda chefnogaeth gan Arolygiaeth Prawf EM a'i gyhoeddi ym mis Medi 2008; canolbwyntiai ar y llwybrau i'r ddalfa ar gyfer achosion yn cael dedfryd amhenodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd a rheoli'r troseddwyr hyn yn y ddalfa.

4.12
Arweiniwyd ail gam yr arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EM, gyda chyfraniad gan Arolygiaeth Carchardai EM. Archwiliwyd y gwaith a oedd yn cael ei wneud gan ardaloedd prawf i asesu effaith dedfrydau amhenodol er mwyn amddiffyn y cyhoedd ac effeithiolrwydd y trefniadau a wnaed ar gyfer rhyddhau troseddwyr unigol a'u rheoli'n ddiogel yn y gymuned.

4.13
Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad rhwng Hydref 2008 ac Ionawr 2009 yn Avon a Gwlad yr haf, Swydd Gaerlŷr a Rutland, Glannau Mersi, De Cymru, Suffolk a Sussex.

4.14
Mae'r canfyddiadau o'r gwaith maes yn cael eu coladu ar hyn o bryd a disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ystod haf 2009.

Arolygu troseddwyr sydd â chyflyrau iechyd meddwl

4.15
Arweiniwyd yr arolygiad gan Arolygiaeth Prawf EM gyda chefnogaeth HMICA, HMIC a HMCPSI. Ei bwrpas oedd asesu ansawdd ac effeithiolrwydd yr wybodaeth a gyfnewidir rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol yn ystod y cyfnod rhwng arestio a chadw'n gaeth i ddedfrydu wrth ddelio gyda throseddwyr sydd â chyflwr iechyd meddwl. Roedd yr arolygiad am geisio canfod a oedd y troseddwyr hyn yn derbyn triniaeth a chefnogaeth briodol gan y System Cyfiawnder Troseddol a thu hwnt.

4.16
Yn ystod y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad, a ddigwyddodd rhwng Rhagfyr 2008 a Chwefror 2009, bu inni ymweld â'r ardaloedd canlynol: Dyfed-Powys (Aberystwyth a Chaerfyrddin), Manceinion Fwyaf (Bolton), Llundain (Camberwell), Gorllewin Mersia (Henffordd), Swydd Warwick (Nuneaton a Leamington Spa), a Swydd Wiltshire (Swindon).

4.17
Mae'r canfyddiadau o'r gwaith maes yn cael eu coladu ar hyn o bryd a disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ystod haf 2009.

Arolygu gwaith gyda throseddwyr rhyw

4.18
Mae'r arolygiad yn adeiladu ar ganfyddiadau ein harolygiad blaenorol a gynhaliwyd yn 2005. Fel yn 2005, fe'i harweiniwyd gan Arolygiaeth Prawf EM gyda chymorth HMIC ac fe ganolbwyntiai ar droseddwyr a oedd ag euogfarn ar y pryd am drosedd rhywiol, ac a oedd yn destun goruchwyliaeth gan y gwasanaeth prawf trwy orchymyn cymunedol, trwydded neu barôl. Pwrpas yr arolygiad oedd asesu effeithiolrwydd y gwaith o reoli troseddwyr rhyw yn y gymuned.

4.19
Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr arolygiad rhwng Chwefror a Mawrth 2009 a bu inni ymweld â swydd Hertford, swydd Gaerhirfryn, Llundain, Gogledd Cymru, Swydd Stafford a Gorllewin Swydd Efrog.

4.20
Mae'r canfyddiadau o'r gwaith maes yn cael eu coladu ar hyn o bryd a disgwylir cyhoeddi'r adroddiad yn ystod haf 2009.

Y Flwyddyn Nesaf

4.21
Yn ogystal â chwblhau ein harolygiadau thematig ar y cyd presennol, byddwn yn parhau i weithio yn ystod y flwyddyn i ddod gyda'r Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol yr ydym yn cydweithio â hwy. Byddwn yn cyfrannu at arolygiadau thematig a arweinir gan Arolygiaethau eraill ar gyfnewid gwybodaeth a phartneriaethau lleihau trosedd ac anhrefn, pan gânt eu sbarduno drwy'r Asesiad Ardal Corfforaethol. Rydym hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr yn Arolygiaeth Carchardai EM i ystyried sefyllfa merched yn y System Cyfiawnder Troseddol.

4.22
Roedd Cynllun Arolygu ar y Cyd 2009-10, a fydd yn cynnwys manylion y Rhaglen Arolygu Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd yn cael ei gwblhau adeg paratoi'r adroddiad hwn.

Pennod 5 – Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu

Trosolwg

5.1
Mae arolygu gwaith Amddiffyn y Cyhoedd wedi parhau'n flaenoriaeth uchel hyd at ddiwedd y ddwy raglen arolygu craidd (rheoli troseddwyr a throseddwyr ifanc) Trwy edrych ar ansawdd ac amseroldeb yr holl dasgau unigol sy'n cyfrannu at waith Amddiffyn y Cyhoedd da, fe wnaethom asesu a oedd y staff yn gwneud popeth yr oedd yn rhesymol iddynt ei wneud i leihau i'r eithaf y *Risg o Niwed* y mae'r unigolion yn ei beri i'r cyhoedd. Mae hyn wedi cael ei bwysleisio hefyd yn y rhaglen thematig ar y cyd a'r gwaith ymchwilio arbennig a amlinellir isod.

Asesiadau Ardal o *Risg o Niwed*

5.2
Yn gynnar yn 2008-09, aseswyd gwaith *Risg o Niwed* gennym mewn pum ardal prawf – De Swydd Efrog, Humberside, Teeside, Northumbria a County Durham cyn eu ARhT llawn. Roedd hyn yn cwblhau gwaith a wnaethpwyd ar gais Asiantaeth GCRhT fel bod asesiad o waith *Risg o Niwed* yn y ddwy flynedd ddiwethaf ar gael ar gyfer pob un o'r 42 ardal cyfiawnder troseddol erbyn Mehefin 2008. Ni chyhoeddasom adroddiadau ar yr ymarferion hyn ond rhoesom adborth cryno i bob ardal.

Sgôr *Risg o Niwed*

5.3
Defnyddiwyd y sgôr *Risg o Niwed* o'r ARhT ac o'r Asesiadau Ardal o *Berygl o Niwed* ychwanegol hyn yn Fframwaith Perfformiad GCRhT fel dangosydd ar gyfer ansawdd gwaith *Risg o Niwed* (gweler paragraff 1.16).

Gwaith gyda'r GCRhT a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

5.4
Yn ein gwaith gyda'r GCRhT, mae'r ffocws wedi parhau ar ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o'r hyn sy'n gwneud arfer *Risg o Niwed* da. Mae'r gwaith wedi cynnwys cyfrannu at Adolygiadau Sicrhau Ansawdd y GCRhT o Droseddau Pellach Difrifol. Ond, bellach, mae angen bwrw ymlaen â'n cynnig i helpu'r GCRhT gyda datblygu tref hunanasesu ar gyfer gwaith Amddiffyn y Cyhoedd.

5.5
Yn yr un modd, rydym wedi parhau i drafod materion yn ymwneud â *Risg o Niwed* gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Ymysg pethau eraill, rydym wedi cyfrannu at ddatblygiadau Dull Gweithredu Graddedig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn cytuno, yn y rhan fwyaf o achosion, ar dermau ar y cyd. Fel gyda'r GCRhT, rydym eisiau helpu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid gyda'r gwaith o ddatblygu tref hunanasesu ar gyfer gwaith Amddiffyn y Cyhoedd mewn TTIau.

Ymchwiliadau *Risg o Niwed*

5.6
Wedi i GCRhT gwblhau adolygiad achos arbennig ym mis Tachwedd 2006 i'r ffordd y rheolodd MAPPA Llundain achos Gary Chester-Nash o 2005, gofynnodd Uned Amddiffyn y Cyhoedd y GCRhT am sicrwydd annibynnol gan Arolygiaeth Prawf EM fod gwelliannau wedi'u gwneud i'r ffordd y mae achosion tebyg i un Gary Chester-Nash yn cael eu rheoli gan Wasanaeth Prawf Llundain. Nid oedd yn rhan o'n cylch gwaith ni i ddilyn trywydd yr argymhellion gan neu ar ran asiantaethau eraill yn yr ymchwiliad hwn. Yn hytrach, ystyriwyd gennym i ba raddau y cafodd y camau gweithredu a ddeilliodd o'r adolygiad achos arbennig eu gwreiddio yn y gwaith o reoli troseddwyr MAPPA yn Llundain ac i bennu unrhyw faterion yr oedd angen i MAPPA neu asiantaethau perthnasol weithredu arnynt.

Cyhoeddasom ein hadroddiad ar y gwaith hwn *On The Right Road: An Inquiry into Developments in the Multi-Agency Management of Risk of Harm in London*, ym mis Gorffennaf 2008. Oherwydd maint yr ardal, roedd Llundain yn wynebu heriau unigryw o ran rheoli achosion MAPPA yn gyson ar draws 32 bwrdeistref awdurdod lleol ac o ran pa mor gyflym y gellid rhoi arferion newydd ar waith. Serch hynny, gwelsom dystiolaeth o rywfaint o waith da gyda'r achosion heriol hyn, ond roeddem yn bryderus nad oedd lefel gyffredinol y gwaith *Risg o Niwed* ar draws ehangder y llwyth achosion yn Llundain yn bodloni'r safon ofynnol yn ddigon aml ar hyn y bryd. Yn gyffredinol, gwelwyd arwyddion bod yr ardal yn symud i'r cyfeiriad iawn.

5.7
Ond, ym Mawrth 2009 dechreusom weithio ar gyfres o arolygiadau achos arbennig mewn sawl lleoliad yn Llundain, ar gais yr Ysgrifennydd Cyfiawnder oherwydd pryderon yn codi o adolygiad y GCRhT o achos Dano Sonnex. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad interim gyda chanlyniadau'r cyntaf o'r arolygiadau achos arbennig, ym Mehefin 2009, yn siomedig. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad llawn ar y pedwar arolygiad achos arbennig yn ystod hydref 2009.

Diogelu

5.8
Yn dilyn trychineb achos Babi Peter, mae pryder y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol am Ddiogelu wedi dwysau. Mae gan yr Arolygiaeth hon gyfraniad unigryw i'w wneud drwy asesu gwaith rheng flaen y gwasanaeth prawf a gwaith gyda throseddwyr ifanc, fel yr amlinellir yn Rhagair yr adroddiad hwn.

Mae ein rhaglen newydd Arolygu Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc (AGTI – *IYO*) yn canolbwyntio ar ble mae arolygiad yn 'ychwanegu gwerth' fwyaf, ac o'i chymharu â'r rhaglen flaenorol mae ffocws y rhaglen newydd ar Amddiffyn Cyhoedd a Diogelu yn bennaf. Yn ogystal, nid yw'r ffocws hwnnw dim ond ar y trefniadau ar gyfer gwneud y gwaith, ond ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda sampl o achosion penodol. Rydym yn rhoi sgôr i ddangos pa mor aml y mae'r gwaith hwn wedi cyrraedd y safon uchel yr ydym yn chwilio amdani.

5.9
Fel cynt, rydym hefyd wedi cyfrannu at drydydd arolygiad ar y cyd y Prif Arolygwyr ar drefniadau i ddiogelu plant.

Y Flwyddyn Nesaf

5.10
Yn ogystal â'r ffocws a roddwn ar Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu yn ein rhaglenni arolygu craidd diwygiedig, rydym hefyd yn anelu at weithio gyda'r GCRhT a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i'w helpu i ddatblygu trefn hunanasesu addas.

Pennod 6 - Edrych i'r Dyfodol

Ein Dull Gweithredu Cyffredinol

6.1
Ein dull gweithredu cyffredinol sylfaenol ar gyfer 2009-10 fydd parhau i asesu ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu mewn sampl cynrychioliadol o achosion penodol. Byddwn yn parhau i roi ein barn ar ba mor aml y cafodd y gwaith ei wneud yn ddigon da gyda phob unigolyn mewn sampl cynrychioliadol o achosion.

6.2
Byddwn yn anelu at roi'r dull gweithredu hwn ar waith yn ein holl arolygiadau, y rhai a wnawn ein hunain a'r rhai a wnawn ar y cyd ag Arolygiaethau eraill.

6.3
Rydym o'r farn fod y dull hwn yn cefnogi'r egwyddorion yng ngweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer gwasanaethau cyhoeddues "*Excellence and Fairness*" a gyhoeddwyd yn 2008 gan gydnabod yr un pryd bod angen cymhwyso'r egwyddorion hyn yn benodol yng nghyd-destun y System Cyfiawnder Troseddol (SCT).

6.4
Rydym hefyd yn parhau i gefnogi deg Egwyddor y Llywodraeth ar gyfer Arolygu (2003), er ein bod yn parhau i fod yn ofalus iawn wrth eu cymhwyso i gyd-destun penodol y SCT. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad B ynghyd â'r datganiad ynghylch sut yr ydym yn eu cyflawni mewn termau penodol.

6.5
Yn fwy cyffredinol, bwriadwn i'n gwaith arwain at:

sicrwydd i Weinidogion a'r cyhoedd fod trefn o arolygiadau annibynnol ar waith i ganfod a yw gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu yn cael ei ddarparu'n effeithiol

welliant yn ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith a arolygwn. Drwy fesur yn gywir, yn agored ac yn deg yn erbyn meini prawf arolygu tryloyw ac ymgysylltu'n adeiladol â'r bobl yr ydym yn arolygu eu gwaith, anelwn at fod yn gatalydd ar gyfer gwella

arolygiad â ffocws sy'n effeithiol ac yn gryno ac sy'n canolbwyntio ar rôl na all neb arall ei darparu - h.y. rôl â 'gwerth ychwanegol unigryw' iddi. Anelwn at wneud digon, ond dim ond 'braidd digon' o arolygu er mwyn sicrhau'r ddau fudd uchod. Gellir ehangu ein rôl os dymuna Gweinidogion hynny, er enghraifft os gofynnir inni ysgwyddo dyletswyddau rheoleiddio gyda'r Ymddiriedolaethau Prawf newydd. Ond, ni ddylai'r fath rolau newydd posibl, na'r toriadau mawr arfaethedig mewn gwariant cyhoeddus, leihau ein gweithgarwch arolygu craidd yn is na'r isafswm mas critigol presennol os ydym i gynnal y buddion hynny.

Rhaglen waith ar gyfer 2009-10

6.6
Yn fwy penodol, mae ein rhaglen waith ar gyfer arolygu yn 2009-10 yn cynnwys y prif elfennau canlynol (a ddisgrifiwyd yn fanylach mewn penodau blaenorol):

Arolygu gwaith gydag oedolion sy'n troseddu

- 8 arolygiad dan y rhaglen Arolygu Rheoli Troseddwyr (ARhT 2 – OMI 2), yn dechrau ym mis Medi 2009. Byddwn hefyd yn arolygu trefniadau rheoli troseddwyr mewn 14 carchar, ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai EM.

- Cwblhau'r arolygiadau thematig ar y cyd presennol dan arweiniad Arolygiaeth Prawf EM ('Cam 2' Dedfrydau Carchar Amhenodol, Troseddwyr Mynych a Throseddwyr eraill â Blaenoriaeth, Troseddwr ag Anhwylderau Meddwl a Throseddwyr Rhyw), a rhoi cefnogaeth i waith Arolygiaethau eraill y System Cyfiawnder Troseddol ar y Cynllun ar y cyd ar gyfer 2009-10.

Arolygu Gwaith gyda Throseddwyr Ifanc (AGTI – IYO)

- Cynnal 53 o arolygiadau achosion craidd AGTI

- Cydlynu a chyfrannu at yr arolygiadau thematig ar y cyd ar faterion cenedlaethol sy'n ymwneud â throseddu ymhlith ieuenctid – troseddu ymysg grwpiau o bobl ifanc (gangiau), gwaith ataliol, camddefnyddio alcohol, a gwaith llys.

- Cyfrannu fel partner llawn at drefniadau'r Asesiad Ardal Cynhwysfawr (AAC).

Amddiffyn y Cyhoedd (lleihau Risg o Niwed i eraill) a Diogelu (lleihau Risg o Niwed i'r hunan ac eraill)

- Ymgymryd ag unrhyw adolygiadau neu ymchwiliadau ar gais Gweinidogion neu eraill.

- Helpu i ddatblygu trefniadau hunanasesu systematig wedi'u meincnodi'n briodol ynghyd ag arolygiad annibynnol ar gyfer gwaith gyda throseddwyr ifanc ac oedolion sy'n troseddu.

Dyrannu Adnoddau yn y dyfodol

6.7
Rydym wedi creu 'cyllideb' o 39,000 o 'oriau arolygu' y gellir eu defnyddio ar gyfer blwyddyn arolygu 'effaith lawn', ac wedi'u dyrannu fel a ganlyn:

Cyfraniad at Raglen Arolygu ar y Cyd a gyd-berchnogir	
Troseddu ymhlith oedolion - ARhT 2 (OMI 2)	14,000
Troseddu ymhlith oedolion – arolygiadau thematig ar y cyd	5,000
Troseddu ymhlith pobl ifanc – AGTI: AAC ac arolygiadau thematig ar y cyd	15,000

Gwaith arolygu a berchnogir yn llwyr	
Gwaith *Risg o Niwed* (gan gynnwys gwaith gyda GCRhT a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, ac adolygu gwaith o ran Troseddau Pellach Difrifol)	2,000
Y tu allan i Gymru a Lloegr	1,000
Gwaith arall (datblygu rhaglenni'n bennaf)	2,000
Cyfanswm	**39,000**

Felly, mewn blwyddyn arolygu 'effaith lawn' bydd y gwaith ar AGTI (IYO) yn cymryd 38% o'r oriau sydd ar gael i'w defnyddio a'r gwaith ar raglen ARhT 2 yn cymryd 36% arall.

6.8
Yn gyffredinol, bydd 90% o waith arolygu Arolygiaeth Prawf EM yn dod o dan y Rhaglen Arolygu ar y Cyd a gyd-berchnogir.

Costau Arolygiaeth Prawf EM

6.9
Rhagamcan o'n cost am bob awr o arolygu y person ar gyfer blwyddyn arolygu 'effaith lawn' fydd £102.

Crynodeb

6.10
Erbyn diwedd Mawrth 2010 byddwn wedi cwblhau ein hamserlen o arolygiadau, gan gynnwys ein cyfraniad at y Rhaglen Arolygu ar y Cyd, ar amser, o fewn y gyllideb ac i safon dda. Wrth wneud y gwaith hwn, byddwn wedi rhoi sicrwydd i Weinidogion ac i'r cyhoedd ac wedi cyfrannu at y gwelliant hirdymor yn ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith a wneir gyda throseddwyr a phobl ifanc.

Atodiad A - Arolygiaeth Prawf EM: Datganiad o Ddiben a Chod Ymarfer

Datganiad o Fwriad

Arolygiaeth annibynnol yw Arolygiaeth Prawf EM, fe'i noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac mae'n adrodd yn uniongyrchol i'r Ysgrifennydd Gwladol. Ein bwriad yw:

- adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol ynglŷn ag effeithiolrwydd gwaith gyda throseddwyr unigol, plant a phobl ifanc gyda'r nod o leihau aildroseddu ac amddiffyn y cyhoedd, pwy bynnag sy'n gwneud y gwaith hwn dan adain y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr neu'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.
- adrodd ynglŷn ag effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer y gwaith hwn, gan weithio gydag Arolygiaethau eraill yn ôl y galw
- cyfrannu at well perfformiad gan y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at bolisi cadarn a darparu gwasanaethau effeithiol, yn enwedig o ran amddiffyn y cyhoedd, drwy roi cyngor a lledaenu arferion da, ar sail canfyddiadau arolygiadau, i Weinidogion, swyddogion, rheolwyr ac ymarferwyr
- hyrwyddo'n frwd gydraddoldeb rhwng yr hiliau a materion ehangach sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth, yn enwedig yn y sefydliadau y byddwn yn arolygu eu gwaith
- cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y System Cyfiawnder Troseddol, yn enwedig drwy gydweithio ag arolygiaethau eraill.

Cod Ymarfer

Nod Arolygiaeth Prawf EM yw cyflawni ei phwrpas a gwireddu egwyddorion y Llywodraeth o ran arolygu yn y sector cyhoeddus drwy:

- weithio mewn ffordd onest, broffesiynol, deg a chwrtais
- adrodd ynglŷn â chanfyddiadau arolygiadau a'u cyhoeddi ynghyd â chyflwyno argymhellion ar gyfer gwella a hynny'n brydlon ac o safon dda.
- hyrwyddo cydraddoldeb rhwng yr hiliau a rhoi sylw ehangach i amrywiaeth ym mhob agwedd ar ein gwaith, gan gynnwys o fewn ein harferion cyflogi a'n prosesau sefydliadol ein hunain
- ar gyfer y sefydliadau yr ydym yn arolygu eu gwaith, ceisio sicrhau bod cyn lleied o waith ychwanegol ag y bo modd yn deillio o'r broses arolygu.

Wrth ymgymryd â'n gwaith, rydym yn ystyried blaenoriaethau Gweinidogol a'r Cynllun Strategol ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol. Rydym yn gweithio'n agos gydag Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill drwy Grŵp Prif Arolygwyr Cyfiawnder Troseddol, a hefyd gyda'r Arolygiaethau sy'n cyfrannu at waith gyda phobl ifanc.

Atodiad B – Polisi'r Llywodraeth ar Arolygu Gwasanaethau Cyhoeddus (2003)

Fe ystyriwyd deg egwyddor y Llywodraeth ar gyfer arolygu gennym, a gyhoeddwyd yn *Inspecting for Improvement* ym mis Gorffennaf 2003. Mae'r rhain yn gosod rhai disgwyliadau bras ar ddarparwyr arolygiadau ac ar yr adrannau sy'n eu noddi. Fel y nodwyd gennym rydym hefyd wedi'u hymgorffori yn ein Cod Ymarfer. Rhown gyfrif am y dull gweithredu a ddefnyddiwn i weithredu'r deg egwyddor isod:

1. ***Diben gwelliant.*** *Dylai fod ymgymeriad penodol ar ran arolygwyr i gyfrannu at wella'r gwasanaeth sy'n cael ei arolygu. Dylai hwn gyfeirio ffocws a dull yr arolygu a hefyd y gwaith adrodd a'r gwaith dilynol yn sgil adolygu. Wrth lunio argymhellion, dylai arolygydd gydnabod perfformiad da a rhoi sylw priodol i unrhyw fethiant. Dylai arolygu anelu at gynhyrchu data a gwybodaeth sy'n galluogi adrannau i raddnodi cynnydd y gwaith diwygio yn eu sectorau'n gyflymach a gwneud newidiadau priodol.*

   Anelwn at gyflawni hyn, nid yn unig drwy fesur yn deg yn erbyn meini prawf agored, ond hefyd drwy ein hymrwymiad i ymddygiad sy'n 'cynyddu i'r eithaf y tebygolrwydd' y daw ymatebwyr gyda ni ar y llwybr i wella'u perfformiad yn barhaus.

2. ***Ffocws ar ganlyniadau,*** *sy'n golygu ystyried sut y cyflwynir gwasanaethau i ddefnyddwyr terfynol y gwasanaethau yn hytrach na chanolbwyntio ar drefniadau rheoli mewnol.*

   Mae ein dull arolygu prif ffrwd yn canolbwyntio ar yr hyn sydd wedi'i gyflwyno i'r troseddwr neu'r unigolyn ifanc (yn bennaf o ran Ansawdd yr Asesu a chynllunio, Ymyriadau a Chanlyniadau cychwynnol).

3. ***Safbwynt y defnyddiwr.*** *Dylid arolygu drwy roi ffocws clir ar brofiad y rheini y darperir y gwasanaeth ar eu cyfer, yn ogystal ag ar drefniadau rheoli mewnol. Dylai arolygu annog arloesedd ac amrywiaeth a pheidio â bod yn seiliedig ar gydymffurfio'n unig.*

   Un o elfennau pwysig ein methodoleg yw cyfweld a gwrando ar safbwynt y troseddwr neu'r unigolyn ifanc, ac ar safbwynt y dioddefwyr a rhieni. Mae safbwynt y defnyddiwr yn elfen bwysig o arolygiadau'r System Cyfiawnder Troseddol, ond nid yw o anghenraid ar ei ben ei hun yn darparu sail ar gyfer canfyddiadau arolygiad (e.e. efallai nad yw troseddwr yn hoff o rywbeth y mae ymarferydd o'r Gwasanaeth Prawf neu'r TTI wedi'i wneud iddo, ond efallai mai dyna'r union beth yr oedd angen i'r swyddog hwnnw ei wneud).

4. ***Cymesur â risg.*** *Dros amser, dylai arolygwyr addasu cwmpas arolygiadau'r dyfodol yn ôl ansawdd perfformiad y darparwr gwasanaeth. Er enghraifft, dylai perfformwyr da fod yn destun llai o arolygu, er mwyn gallu canolbwyntio adnoddau ar feysydd sy'n cyflwyno'r risgiau mwyaf.*

   Nid ydym erioed wedi cefnogi'r syniad o gynnig 'gwyliau arolygu' fel ffordd o weithredu'r egwyddor hon, ond rydym yn cefnogi'n frwd y syniad o amrywio dwyster arolygu yn ôl yr angen a bennir. Felly, rydym yn canolbwyntio'r gwaith arolygu ar feysydd lle mae methodoleg yr arolygu'n benodol yn ychwanegu gwerth – o'r herwydd, rydym yn cynnal rhaglenni arolygu treigl sy'n canolbwyntio'n benodol ar waith Amddiffyn y Cyhoedd a Diogelu - a chynhaliwn ailarolygiadau dim ond lle mae'r corff sy'n cyflogi'n disgyn yn sylweddol islaw'r meini prawf gofynnol mewn meysydd hollbwysig o'r fath.

5. *Dylai arolygwyr annog* ***hunanasesu*** *trwyadl gan reolwyr. Dylai arolygwyr herio canlyniadau hunanasesiadau rheolwyr, eu hystyried yn ystod y broses arolygu, a darparu meincnod cymharol.* Mae'r meini prawf a'r arweiniad a gyhoeddir ar ein gwefan yn galluogi unrhyw ymarferydd neu reolwr i asesu ei ymarfer ei hun unrhyw bryd. Hefyd, mewn datblygiad sydd wedi'i gynllunio ers amser, anelwn at weithio

gyda'r GCRhT i hyrwyddo trefn o fewn yr Asiantaeth sy'n cyfuno hunanasesu ag arolygu annibynnol a meincnodi.

6. *Dylai arolygwyr ddefnyddio **tystiolaeth ddiduedd.** Dylai tystiolaeth, p'un ai a yw'n feintiol neu'n ansoddol, gael ei dilysu a dylai fod yn gredadwy.*

   Rhaid i dystiolaeth gynnwys mwy na thystiolaeth ail law, ac mae ein Harweiniad yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn i dystiolaeth debyg gael ei dehongli'n gyson, hyd yn oed gan staff arolygu gwahanol mewn lleoliadau gwahanol.

7. *Dylai arolygwyr ddatgelu'r **meini prawf** a ddefnyddiant i ffurfio barn.*

   Cyhoeddir ein meini prawf arolygu ar ein gwefan.

8. *Dylai arolygwyr fod yn agored am eu prosesau, gan fod yn barod i gymryd unrhyw gwynion o ddifrif, ac yn gallu dangos proses sicrhau ansawdd gadarn.*

   Mae ein hymddygiad o fath sy'n golygu ein bod yn gallu esbonio ar y pryd y rhesymau am y sgoriau a roddwyd gennym, ac ymateb i gwestiynau i'r perwyl hwnnw. Felly, rydym wedi ymateb i gwestiynau, pryderon ac i gwynion ffurfiol yr ydym wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Hefyd, rydym yn cymryd y cam cyntaf, drwy gyfrwng ein strategaeth Sicrhau Ansawdd, i adolygu'n weithredol agweddau ar ein methodoleg, er mwyn i ni allu bod mor hyderus â phosibl fod ein barn yn deg ac yn gywir.

9. *Dylai arolygu fod yn ymwybodol o **werth am arian**, gan gynnwys eu gwerth am arian eu hunain:*

   - *Mae arolygu'n edrych i weld a oes trefniadau ar waith i gyflwyno'r gwasanaeth yn effeithiol ac yn effeithlon.*
   - *Dylai arolygu ei hun allu dangos ei fod yn darparu buddion sy'n gymesur â'i gost, gan gynnwys y gost i'r rhai sy'n cael eu harolygu.*
   - *Dylai arolygiaethau sicrhau bod y gallu ganddynt i weithio gyda'i gilydd ar faterion trawsbynciol, er lles mwy o effeithiolrwydd cost a lleihau'r baich ar y rhai sy'n cael eu harolygu.*

   Aseswn a yw'r ymyriadau gyda phob troseddwr yn gymesur â chost ac ag angen unigol y troseddwr. Rydym yn cydnabod bod ein methodoleg (o anghenraid) yn llafur-ddwys, ac ym Mawrth 2005, cyhoeddasom astudiaeth achos a oedd yn dadansoddi manteision a chostau arolygiad enghreifftiol, gan gynnwys y costau i'r corff a oedd yn cael ei arolygu. Rydym yn parhau i fesur costau gan ddefnyddio'r dulliau a ddisgrifir yn y fan honno. Nid yn unig y cynhaliwn arolygiadau ar y cyd ag Arolygiaethau Cyfiawnder Troseddol eraill, rydym hefyd yn cydlynu ein gwaith arall er mwyn osgoi, er enghraifft, ymweliadau olynol aml gennym ni a chorff craffu arall pryd bynnag y bo modd. At y dibenion hyn, rydym yn cydweithredu'n agos ag Ofsted a'r Comisiwn Archwilio oherwydd ein gwaith yn arolygu'r gwaith a wneir gyda throseddwyr ifanc, a hefyd gyda chyrff Archwilio eraill wrth gynllunio ein hymweliadau ag Ardaloedd Prawf.

10. *Dylai arolygwyr **ddysgu'n barhaus** o brofiad er mwyn bod yn fwyfwy effeithiol. Gellir gwneud hyn drwy asesu eu heffaith eu hunain ar allu'r darparwr gwasanaeth i wella a thrwy rannu arferion gorau ag arolygwyr eraill.*

    Gofynnwn am adborth ar ein cyfweliadau unigol â staff y cyrff a arolygir, a defnyddiwn hwnnw i adolygu ac adnewyddu ein dulliau a'n sgiliau corfforaethol ac unigol, a chymerwn adborth hefyd mewn digwyddiadau rhanbarthol. Trwy'r dulliau hyn a dulliau eraill rydym yn monitro ein heffaith ein hunain ar y corff a arolygir ac adolygwn ein harfer ein hunain yn rheolaidd, fel rhan o'n rhaglen arferol, a hefyd mewn gwaith ar y cyd ag arolygiaethau eraill.

Atodiad C – Staff Arolygiaeth Prawf EM ar 31 Mawrth 2009

Prif Arolygydd EM
Andrew Bridges

Prif Arolygwyr Cynorthwyol EM
Liz Calderbank
Krystyna Findley(1)
Julie Fox
Alan MacDonald
Peter Ramell

(1) (*ar sail dros dro, ar gyfer secondiad)*

Arolygwyr EM
Jane Attwood
Helen Boocock
Mark Boother
Rose Burgess
Sandra Fieldhouse
Jude Kelman
Sally Lester
Lisa McDowell
Yvonne McGuckian
Ian Menary
Joy Neary
Tony Rolley
Nigel Scarff
Joseph Simpson
Andy Smith
Les Smith
Ray Wegrzyn
Steve Woodgate

Aseswyr Ymarfer
Sarah Ashworth
Stephen Hubbard

Gwasanaethau Cymorth

Rheolwr y Rhaglen
Andy Bonny

Tîm Gwybodaeth
Kevin Ball (Rheolwr)
Oliver Kenton
Pete Clegg

Rheolwr Cyflwyno Gwasanaethau
Lynn Carroll

Tîm Cefnogi Arolygiadau
Robert Turner (Rheolwr)
Zoe Bailey
Pippa Bennett
Catherine Calton
Andrew Doyle
Christopher Reeves
Rebecca Fletcher

Tîm Adnoddau a Chyfathrebu
Alex Pentecost (Rheolwr Cyhoeddiadau)
Charles Luis (Rheolwr Cyllid)
Deborah Hewitt
Ann Hurren
Nick Channell
Paul Cockburn

Darllenwyr Proflenni Cyswllt (sy'n derbyn ffi)
Kirk Davies
Rachel Dwyer
Jean Hartington

Arolygwyr Cyswllt (sy'n derbyn ffi)
Malcolm Bryant
Sheila Booth
Melva Burton
Paddy Doyle
Sue Fox
Martyn Griffiths
Keith Humphreys
Martin Jolly
John Llewellyn-Thomas
Iolo Madoc-Jones
Sarah Mainwaring
Vivienne O'Neale
Eileen O'Sullivan
Ian Simpkins
Dorothy Smith
Rory Worthington

Atodiad D – Adroddiadau o arolygiadau ar waith prawf a throseddu ymhlith pobl ifanc a gyhoeddwyd yn 2008-09

Adroddiadau Arolygu Rheoli Troseddwyr:

Swydd Gaergrawnt - ailarolygiad	Ebrill 2008
Surrey	Ebrill 2008
Swydd Gaerloyw	Ebrill 2008
Wiltshire	Mai 2008
Llundain	Mehefin 2008
De Cymru	Gorffennaf 2008
Gogledd Cymru	Medi 2008
Dyfed-Powys	Medi 2008
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Medi 2008
Gwent	Hydref 2008
Gorllewin Mersia	Tachwedd 2008
Swydd Stafford	Rhagfyr 2008
Swydd Warwick	Ionawr 2009
Gogledd Swydd Efrog	Chwefror 2009
Gorllewin Swydd Efrog	Chwefror 2009
Glannau Humber	Mawrth 2009

Adroddiadau Arolygu Rheoli Troseddwyr mewn carchardai:

De Ddwyrain Lloegr	Ebrill 2008
De Orllewin Lloegr	Mehefin 2008
Llundain	Medi 2008
Cymru	Rhagfyr 2008
Gorllewin Canolbarth Lloegr	Chwefror 2009

Adroddiadau Arolygu'r Timau Troseddwyr Ifanc

Stockton on Tees	Ebrill 2008
Camden	Mai 2008
Wandsworth	Mai 2008
Bro Morgannwg	Mai 2008
Leeds	Mai 2008
Bromley - ailarolygiad	Mai 2008
Caint	Mai 2008
Dinas Caerlŷr	Mai 2008
Bradford a'r Cylch	Mai 2008
Bury	Mai 2008
Blackpool - ailarolygiad	Mehefin 2008
Solihull	Mehefin 2008
South Tees	Gorffennaf 2008
Darlington	Gorffennaf 2008
Southwark	Gorffennaf 2008
Surrey	Gorffennaf 2008

Croydon	Gorffennaf 2008
Swydd Amwythig a Telford a Wrekin	Gorffennaf 2008
Gwynedd ac Ynys Môn	Awst 2008
Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf	Awst 2008
Cernyw ac Ynysoedd Scilly	Awst 2008
Swydd Nottingham	Awst 2008
De Swydd Gaerloyw	Medi 2008
Waltham Forest	Medi 2008
Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln - ailarolygiad	Medi 2008
East Riding Swydd Efrog	Hydref 2008
Norfolk	Hydref 2008
Tameside	Hydref 2008
Dorset	Hydref 2008
Sutton	Hydref 2008
Swydd Warwick	Rhagfyr 2008
Essex	Rhagfyr 2008
Oldham	Rhagfyr 2008
Reading	Rhagfyr 2008
Blackburn a Darwen	Ionawr 2009
Wokingham	Ionawr 2009
De Tyneside	Ionawr 2009
Abertawe	Chwefror 2009
Sir Gaerfyrddin	Mawrth 2009
Tor-faen a Sir Fynwy	Mawrth 2009
Arolygiad ar y Cyd o Dimau Troseddwyr Ifanc - Adroddiad Diwedd Rhaglen 2003-08.	Mawrth 2009

Adroddiadau Arolygu Cefnogi Pobl:

Cyngor Sir Suffolk	Mai 2008
Cyngor Sir Swydd Stafford	Mai 2008
Cyngor Gogledd Ddwyrain Swydd Lincoln	Mehefin 2008
Cyngor Bwrdeistref Metropolitan Rochdale	Mehefin 2008
Cyngor Sir Dorset	Mehefin 2008
Bwrdeistref Redbridge, Llundain	Mehefin 2008
Bwrdeistref Wandsworth, Llundain	Gorffennaf 2008
Cyngor Sir Swydd Derby	Gorffennaf 2008
Cyngor Ynysoedd Scilly	Gorffennaf 2008
Cyngor Bwrdeistref Wolverhampton – ailarolygiad	Awst 2008
Cyngor Sir Swydd Amwythig	Hydref 2008
Cyngor Sir Swydd Hertford - ailarolygiad	Tachwedd 2008
Cyngor Bwrdeistref Southend on Sea - ailarolygiad	Rhagfyr 2008

Ymchwiliadau Risg o Niwed:

On the Right Road: Ymchwiliad i ddatblygiadau rheoli Risg o Niwed drwy ddulliau amlasiantaethol yn Llundain, Gorffennaf 2008

Adroddiadau Arolygiadau Thematig ar y Cyd:

Agweddau ar Orfodi Gorchmynion y Llys
Gorffennaf 2008

Diogelu Plant: Trydydd adroddiad ar y cyd y Prif Arolygwyr ar drefniadau i ddiogelu plant.
Gorffennaf 2008

A Complicated Business: Cydarolygiad o orchmynion, trwyddedau a gofynion cyrffyw a fonitrir yn electronig.
Hydref 2008

Cydarolygiad gan y System Cyfiawnder Troseddol: *The indeterminate sentence for public protection (Phase I)*
Hydref 2008

Actions Speak Louder: Ail adolygiad o ofal iechyd yn y gymuned ar gyfer pobl ifanc sy'n troseddu
Chwefror 2009

Adroddiadau Arolygu Ardal ar y Cyd:

Adroddiad Arolygu ar Cyd o Ardal Cyfiawnder Troseddol Dorset
Mai 2008

Adroddiad Arolygu ar Cyd o Ardal Cyfiawnder Troseddol Swydd Gaerhirfryn
Gorffennaf 2008

Atodiad E – Cyllideb Arolygiaeth Prawf EM ar gyfer 2008-09

	Cyfanswm cyllideb y Flwyddyn (£)
Cyflogau Staff	2,763,000
Staff sy'n cael ffi	173,000
Teithio a chynhaliaeth	540,000
Swyddfa Manceinion	134,000
Hyfforddiant	54,000
Hyrwyddo a datblygu	45,000
Argraffu, deunydd ysgrifennu a phostio	55,000
TG a thelathrebu	151,500
Lluniaeth a lletygarwch	9,500

Cyfanswm gwariant	**3,925,000**
Incwm	150,000
Cyllideb gwariant net	**3,775,000**